

ECO'R WYDDFA

Rhif 193

MEDI 1993

Pris 25c

Canu i blant Chernobyl



Un o'r llefydd hynny na fedrir meddwl amdano heb gofio am ryw drasiedi fawr yw Chernobyl. Mae'n debyg na fyddem yn gwybod am fodolaeth y lle oni bai am y ddamwain a ddigwyddodd yn yr orsaf niwcliar yno yn Ebrill 1986. Yn ddiweddar, yn sgil y penderfyniad i gau gorsaf drydan Trawsfynydd a'r ddamwain yng ngorsaf Y Wylfa cafwyd llawer cyfeiriad eto at Chernobyl. Mae crybwyll yr enw yn ein hatgoffa am y dioddefaint a achoswyd gan y ddamwain.

Cafodd plant Ysgol Gymuned Penisarwaun gyfle i groesawu criw o blant o Chernobyl ychydig ddyddiau cyn diwedd tymor yr haf. Yr oedd y plant o'r pentref yn Ukrain ar daith ym Mhrydain ac yn treulio rhai dyddiau yng ngogledd Cymru.

Adrodd a Chanu

Bu'n Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus iawn i Lyndsey Vaughan Parry o Ddeiniolen gan iddi ennill pedair gwobr yno. Cipiodd y wobr gyntaf am adrodd, yr ail am ganu'r piano, a'r drydedd wobr am ganu unawd a chanu cerdd dant. Llongyfarchiadau mawr iddi hi, ac i Non Llywelyn o Fethel a gipiodd yr ail wobr yng nghystadlaethueth tlws coffa Richard Burton.

Roedd deg o blant rhwng 9 a 14 oed ar y daith a dau arweinydd yn gofalu amdanynt. Roedd pob un o'r plant wedi dioddef mewn rhyw ffordd o ganlyniad i'r ddamwain. Aelodau Clwb Llewod Caernarfon oedd yn gofalu am drefniadau eu hymweliad â'r ardal hon. Bu'r plant yn ymweld â Llanberis gan dreulio peth amser ym Mharc Padarn. A threfnwyd eu bod yn mynd draw i Ysgol Penisarwaun i gyfarfod â'r plant ac i gael blas ar ddiwrnod ysgol yma yng Nghymru.

Cafwyd tipyn o hwyl wrth i'r plant geisio cyfathrebu â'i gilydd heb ddeall yr un gair o iaith ei gilydd. Cyflwynodd plant Penisarwaun eitem gerddorol, ac yr oedd yr arweinwyr o Rwsia wedi dotio at eu dawn. Cyfnewidwyd anrhegion bychain rhwng y plant hefyd. Fe ffilmiwyd y cyfan gan yr ymwelwyr ac mae llun a llais plant Penisarwaun i'w weld a'i glywed erbyn hyn draw yn Ukrain. Bydd plant Penisarwaun hwythau'n cofio'r ymweliad am amser hir.

Chwythu'r Corn Gwlad



Mae dau frawd a fagwyd yn Llanberis wedi bod yn amlwg yng ngweithgareddau'r Orsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ers blyneddau bellach. Yr ydym yn gyfarwydd iawn â gweld Eifion Wyn Hughes (Eifion Peris) a'i frawd Gareth Wheldon Hughes (Gareth Elidir) ar lwyfan y Brifwyl gan mai hwy yw'r ddau sy'n canu'r Cymr Gwlad. Nid pawb felly oedd yn sylweddoli nad oedd yr un o'r ddau yn aelodau o'r Orsedd tan eleni. Ond ar fore Llun yr Eisteddfod yn Llanellwedd cafodd y ddau eu derbyn i'r Orsedd gan yr Archdderwydd newydd, John Gwilym Jones.

Eifion, sy'n byw bellach yn Neiniolen ac yn Swyddog yn Adran Safonau Masnach Cyngor Gwynedd, a gafodd y cyfle i ganu'r Corn Gwlad gyntaf. Gwahoddwyd ef i fod yn bartner i Mr Tommy Williams (Tom Deiniol), Bangor, a oedd yn gyd-aelod iddo ym Mand Deiniolen. Dechreuodd ar ei waith yn y Seremoni Cyhoeddi yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf 1977 ac yn yr Eisteddfod yn Wrecsam y mis dilynol. Bu'n gwneud y gwaith gyda Mr Tommy Williams am ddwy flynedd, cyn i Gareth gael ei wahodd i ymuno ag ef pan ymddeolodd Mr Williams. Felly dechreuodd Gareth, sy'n byw bellach ym Metws-y-coed ac yn blismon ym Mlaenau Ffestiniog, ganu'r Corn yn Eisteddfod Caernarfon yn 1979.

Mae'r ddau yn gyn-aelodau o Fand Llanberis. Ar hyn o bryd mae Eifion yn aelod o Fand Deiniolen a Gareth yn aelod o Fand Llanrug.

Wrth eu llongyfarch am gael eu hanrhydeddu gan yr Orsedd, gallwn ddiolch bod gan yr Orsedd wisgoedd arbennig ar gyfer yr Utganwyr. Oherwydd yn ôl y cyfarwyddiadau 'Ymarweddian yng Ngorsedd y Beirdd': 'Pan gyferfydd tyrfu fawr yng Ngorsedd, ac yn arbennig yn yr ystafell gwisgo, y mae'n hawdd i rywrai gael eu tramgwyddo oherwydd nad oes gwisg ar eu cyfer neu ryw amryfusedd arall. Y mae tiriondeb o bob tu yn werthfawr a gweddus iawn mewn amgylchiadau fel hyn'. Gan fod i'r Utganwyr eu gwisgoedd coch eu hunain, ni fydd raid i ni boeni am ddiogelwch y ddau frawd pe digwyddai rywbryd iddi fynd yn helynt ac yn ymladdfa gas ymysg y beirdd ynghylch y gwisgoedd gorau!

Dawnsio'n llwyddiannus



Llongyfarchiadau i Ddawnsyr Caernarfon a fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanellwedd. Ddydd Gwener yr Eisteddfod, yn y gystadlaethueth i bartion heb fod yn fwy na thri chwpl cipiwyd yr ail a'r drydedd wobr gan ddawnsyr o'r parti hwn y mae llawer o'i aelodau yn byw ym mro'r Eco. Ac ar y nos Sadwrn fe gipiodd Dawnsyr Caernarfon y drydedd wobr ym mhrif gystadlaethueth dawnsio gwerin yr Eisteddfod. Cyflwynwyd dwy ddawns yn y gystadlaethueth honno, 'Abergenni' a 'Rali Twm Siôn'. Llongyfarchiadau i hyfforddwr y parti, Idwal Williams, a gipiodd hefyd y wobr gyntaf yn un o gystadlaethau cyfansoddi dawns.

ECO'R WYDDFA

Rhif 193
MEDI 1993

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(670115)

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWYR

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (674669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

Gareth Williams, Angorfa,
Rhes Rhythallt, Llanrug (673683)

Tony Storey, Awel y Mynydd,
Ceunant, Llanrug (650600)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stad Tŷ
Hen, Waunfawr (650599)

TREFNYDD GWERTHIANT

Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn,
Ffordd yr Orsaf, Llanrug

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(0248 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive Jenkins, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwynedd ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (676733)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEDI 30
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MEDI 20
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
HYDREF	MEDI 30	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 28	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
RHAGFYR	RHAGFYR 2	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034

Dymunaf ddiolch i'r cysylltwyr am eu cydweithrediad a'u parodrwydd i fy nghynorthwyo i drefnu'r rota am y flwyddyn.

Llythyrau

Y TŴR

2 Bryniau Gerddi
Llanberis

Annwyl Olygydd,

Tybed a gaf dynnu sylw darllenwyr yr Eco at yr argyfwng sydd yn wynebu Eglwys Sant Padarn, Llanberis. Oherwydd cyflwr drwg tŵr yr eglwys mae'r plwyfolion yn wynebu cost aruthrol, oddeutu £60,000. Mae'r gwaith yn hollol angenrheidiol, ac mae'n amhosibl ei osgoi. Agorwyd Cronfa Atgyweirio ar gyfer y gwaith. Bwriedir cynnal amryw o weithgareddau er budd y Gronfa, a byddwn yn ddiolchgar am bob cefnogaeth a roddir iddynt. Anfonwn fanylion am y gweithgareddau yn nes ymlaen.

Yn gywir iawn,
AUDREY EVANS
Warden Eglwys Sant Padarn

UN O ERYRI

Bryn Difyr
Bryn Newydd
Prestatyn
Clwyd

Annwyl Olygydd,

Fel un o hen fechgyn Llanrug a chyn aelod o deulu 'Eryri' pleser i mi bob amser yw darllen am hynt a helynt yr ardal yng ngholofnau Eco'r Wyddfa. Diddorol oedd darllen am ganmlwyddiant y Co-op yn rhifyn Gorffennaf ac hwyrach y bydd gair neu ddau am gysylltiad teulu Eryri a'r ardal o ddiddordeb i'r darllenwyr.

Gŵr a gwraig ieuainc yn eu hugeiniau oedd fy nhaid a'm nain pan ddaethant i fyw i Eryri gyda'u dau fab bychan pump a thair mlwydd oed ym mis Awst 1883 — union gant a deg o flynyddoedd yn ôl a hyfryd nodi bod aelodau o'r teulu yn parhau i fyw yn yr un tŷ hyd heddiw.

Gan mlynedd i eleni, sef yn 1893, daeth cyfle i rai o blant yr ardal gael addysg ganolraddol am y tro cyntaf erioed rwy eistedd arholiad y 'scholarship'. Yr oedd brawd fy nhad, sef Robert O. Roberts, yn un o'r rhai a fu'n llwyddiannus yn yr arholiad honno ac fe aeth o Ysgol Glanmoelyn i Ysgol Friars, Bangor (gweler tudalen 146 o lyfr y diweddar Barchedig John Pritchard, M.A., B.D., ar hanes yr Ysgol Sir ym Mrynrefail).

Magwyd mam ym Mryn Pistyll,

Cefnogwch ein
Hysbysebwr

Pontrhythallt ac aeth hi o ysgol Tanycoed i Ysgol Brynrefail yn 1902. Bu iddi chwech o blant a bu bob un ohonom yn ddisgyblion ym Mrynrefail — yr hynaf yn mynd yno yn 1930 a'r ieuengaf yn gadael yn 1950.

Bu fy nai a'm nith Dewi a Mair Oliver Jones yn ddisgyblion yn yr ysgol (yn Llanrug erbyn hyn) yn y chwedegau ac mae plant Mair, sef Catrin ac Eifion yn cael eu haddysg yno heddiw.

Gyda llaw, bu'r teulu yn aelodau o'r Capel Mawr yn ddifwlch ers 1883.

Dyna i chwi gysylltiad go faith a Chartref, Eglwys ac Ysgol. Anfonaf fy nymuniadau da i holl blant Llanrug a'm diolch am y fagwraeth a gefais mewn ardal mor hyfryd.

Yn gywir,
NEVILLE ROBERTS

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol



THE SEIONT MANOR HOTEL

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY



HAMDDEN

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.

Swper rhamantus i ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r teulu
Gwledd brodas fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd
Ymlacio ym mar y llyfrgell

BUDD-DALIADAU AR ÔL YMDDEOL

Os ydych dros oed pensiwn (60 i ferched, 65 i ddynion) mae'r Asiantaeth Budd-daliadau wedi darparu llyfryn dwyieithog newydd, **Budd-daliadau ar ôl ymddeol**, ar eich cyfer.

Mae'r llyfryn yn cynnwys gwybodaeth a chynghor ar wahanol faterion, nid ar Nawdd Cymdeithasol yn unig. Mae'n sôn am bethau fel help gyda costau'r cartref a chostau teithio, beth i'w wneud os yw'r llyfryn pensiwn yn mynd ar goll, newid swyddfa bost, symud cartref, byw mewn cartrefi preswyl, mynd i'r ysbyty, beth i'w wneud yn dilyn marwolaeth, mynd dramor, costau meddygol a nifer o agweddau eraill o fywyd dydd i ddydd.

Os ydych angen y llyfryn uchod, ynghyd â phhecyn arbennig sy'n cynnwys taflenni eraill ar bethau fel sut i wneud y gorau o'ch iechyd, sut i ddiogelu'ch tŷ, ac yn y blaen, ffoniwch Linell Ddi-dâl Gymraeg Nawdd Cymdeithasol ar **0800 289011**. Ni fyddwch yn talu am yr alwad, a chewch gyngor ar unrhyw fater arall yn ymwneud â Nawdd Cymdeithasol os mynnwch.

Yn olaf, mae gan y Llinell Ddi-dâl, bellach, minicom ar gyfer y byddar. Felly, os oes defnyddwyr minicom yn eich mysg, sydd angen cyngor, cysylltwch â ni ar y rhif uchod. Ni fydd yr alwad minicom yn costio yr un geiniog i chi.

APÊL YMCHWIL Y GALON

Cynhaliwyd casgliad o dŷ i dŷ yr Apêl yn ddiweddar, ac fe ddymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb fu'n casglu ac i drigolion bro'r Eco am eu haelioni i'r achos teilwng hwn. Dyma fel y casglwyd — Bethel: £72.71; Brynrefail: £45.36; Cwm-y-glo: £72.58; Caethro: £35.38; Dinorwig: £61.14; Deiniolen: £96.85; Llanberis: £298.27; Llanrug: £293.15; Llanddeiniolen: £22.12; Penisarwaun: £66.84; Nant Peris: £15.92; Waunfawr: £221.26; Rhyd-ddu: £29.90.

Cynhelir Ffair Hydref Ymchwil y Galon yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon, ar nos Iau, 28ain o Hydref. Bydd y Cardiau Nadolig ar werth gan Mrs Mai Parry, 2 Bryn Heli, Ffordd Glanffynnon, Llanrug. Ffôn (0286) 674385.

CYFARFOD NESAF ANTUR PADARN

Anelu tuag at geisio gweithredu rhai o'r awgrymiadau sydd wedi eu cynnwys fel rhan o Strategaeth Tymor Hir yr Antur fydd bennaf ar yr agenda pan fydd Antur Padarn yn cynnal eu cyfarfod nesaf ar nos Fercher, 15 Medi, am 7 o'r gloch yn yr Institiwt, Llanrug.

Bellach daeth tymor Mr Robin Jones fel Swyddog Datblygu i'r Antur wedi dod i ben a dymunwn pob llwyddiant iddo i'r dyfodol. Felly, yn absenoldeb swyddog o'r fath, dylai unrhyw ohebiaeth sydd yn ymwneud a'r Antur gael eu cyfeirio o hyn ymlaen i'r Cadeirydd, Mr Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Dinorwig.

RAS ANTUR Y WAUNFAWR 10k a RAS HWYL

DYDD SADWRN, MEDI 25
am 2 o'r gloch
yn Y GANOLFAN, WAUNFAWR

RAS HWYL
Medal i bawb sy'n cwblhau'r cwrs.

STONDINAU AMRYWIOL
CAFFI

DOWCH I FWYNHAU'R HWYL

CHIROPODIST Gwasanaeth yn eich Cartref E. Ll. Parry M.S.S.Ch., M.B.Ch.A. 57 Glanffynnon LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon
5754

OH! TO BE IN ENGLAND

Robert Browning bia'r geiria. Ond mae'r dyhead ynof finna. Achos mae'n nhw'n deall be 'di be yn Lloegr, ac yn gwybod sut mae gwneud petha. Yn enwedig felly ar fater iaith a'i statws. Mae petha'n syml yn fannu, ac mor anodd yng Nghymru.

Bu galw mawr am ddeddf iaith newydd; bu trafod, dadlau, deisebu, llythyru, protestio, pwyllgora ac ymgynghori. Addaswyd Mesur Iaith cryf, a thorwyd yr addewid. Addawyd cryfhau'r Mesur, a thorwyd yr addewid hwnnw hefyd. Cafwyd rhyw fath o Ddeddf, a Bwrdd.

Bydd gwaith y Bwrdd Iaith yn anodd. Mae ei Gadeirydd newydd, Dafydd Elis Thomas, yn sylweddoli hynny. Bydd ef ac aelodau'r Bwrdd yn gwneud eu gorau. Ond anodd fydd sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yn gyfanguwl yn y Gymraeg. Bydd yn anodd dylanwadu wedi, fel y gobeithia'r Cadeirydd wneud, ar gwmnïau preifat a'u cael nhw i weld yr angen i weithredu trwy'r Gymraeg. Mae'n anodd newid agwedd pobol at iaith sydd wedi arfer ei chyfrif yn eilradd, yn niwsans ac yn ddiangen. Beth bynnag a ddywed John Redwood a John Major am y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru, mae'n beryg na fydd y mwyafrif yn teimlo bod angen gwneud dim ynglŷn â hynny nes y bydd y statws hwnnw wedi ei roi i'r iaith mewn deddf seneddol y bydd yn ofynnol i bobl ei pharchu a'i gweithredu.

Ar yr union ddiwrnod yr oedd Cadeirydd newydd y Bwrdd Iaith yn camu i'w swydd, cafwyd han Y Ciosg. Nid Ciosg Tal-y-sarn ond Ciosg Caer. Gosodwyd ciosg coch

hen ffasiwn yn y ddinas honno. Ac ar wal y ciosg roedd cyfarwyddiadau. A'r rhain yn GYMRAEG! YN UNIAITH GYMRAEG! Ac o'r fath helynt. Cymraeg yn Chester? Cymraeg yn England? Drysu ymwelwyr o ben draw byd? Rhoi'r argraff i bobol Lloegr bod y Gymraeg yn iaith fyw?

Meddai llefarydd ar ran BT, 'Does dim achos yn y byd dros gael poster Cymraeg yng Nghaer. Camgymeriad yw'r arwydd yna, ac mi wnawn ni ei gywiro ar unwaith'. Dach chi'n gweld, mae'n nhw'n dallt yn Lloegr pa iaith ma nhw'n siarad. Mae'n nhw'n dallt bod raid i chi roi gwasanaeth yn iaith y bobol, a bod hyn yn rhesymol, yn naturiol ac yn iawn. Mae nhw'n dallt bod raid arddel yr iaith ym mhob man. Mae Redwood a Major yn dallt hynny. Ac mae nhw'n dewis peidio dallt bod yr un peth yn wir am Gymru.

Ac nid y nhw yw'r unig rai. Mae Neuadd Goffa Bethel ar fin cael ei hail-agor ac fe osodwyd arwydd UNIAITH SAESNEG wrth ddrws y Clwb Snwcer. Ac fe gafwyd cwyno, a hynny'n gwbl naturiol. (Fel basa BT yn ei ddweud, 'Camgymeriad yw'r arwydd yna'.) Ond fe gafwyd cwyno am y cwyno! Welai rhai ddim byd o'i le ar yr arwydd, na pham bod angen ei newid.

Ia, 'Oh! to be in England,' lle nad oes angen deddf na bwrdd.

B.R.

Trefniadau Blodau Sych
a Ffres yn ôl eich gofyn
Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

- ★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
- ★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
- ★ Blodau ar gyfer angladdau
- ★ Stoc o flodau ffres



Galwch neu ffoniwch

870605

am fanylion

AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM

FFENESTRI CELTAIDD (CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL



- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim



CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Ysgol Dolbadarn: Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd estynnwn groeso cynnes i'r plant sy'n dod atom am y tro cyntaf. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yma. Mae'n siŵr y cânt ddigon o hwyl gydag un tegan newydd a gafwyd yn rhodd oddi wrth Steven Edwards, Maes Padarn. Cyflwynodd Steben i'r Ysgol fodel hardd o drên y Wyddfa a wnaed ganddo yn Ysgol Brynrefail, a diolchwn iddo am y rhodd. Diolch hefyd i Grug Jones, Bryn Teg, am ei rhodd hithau — 'Winnie the Pooh' hardd i ddal bagiau llyfrau'r plant.

Cynhaliwyd mabolgampau'r Ysgol cyn diwedd tymor yr haf. Llongyfarchiadau i enillwyr y tlysau: Rebecca Jones oedd y Victrix Ludorum, a Gareth Wyn Jones a Marcus Orlick oedd cyd-enillwyr y Victor Ludorum.

Dymunwn yn dda wrth gwrs i'r plant sydd wedi symud o'r Ysgol i'r ysgol uwchradd — gobeithiwn glywed am eu llwyddiant yno.



Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn: Enillwyr 1 Gorffennaf oedd — £35: Mrs E. Lewis, Pen Pwll Coch, Penisarwaun (123); £25: Mrs S. Brookes, Graig Ewig, Llanrug (100); £15: Mrs M. Lockett, Plas Tirion Lodge, Llanberis (135); £10: Mrs Williams, Siop y Gloch, Pen-y-groes




(55); £5: Mrs G. Roberts, Ffordd Capel Coch, Llanberis (48).

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn: Yng nghyfarfod olaf y tymor ymwelodd aelodau'r Gymdeithas â Choleg Glynllifon ar nos lau, 1 Gorffennaf. Cafwyd croeso cynnes i'r plasty gan y Warden, Mr Dyfrig Jones, ac ar ôl pryd da o fwyd, dangosodd sleidiau diddorol dros ben o rai o deulu'r Wynne a adeiladodd y plasty gwreiddiol ac o'r sefydliad fel ag y mae heddiw. Roedd clywed Mr Jones yn dweud yr hanes yn ei ffordd hynaws a'i iaith goeth yn bleser pur. Diolchwyd iddo ef ac i'r staff ac i'r trefnwyr gan y Parchg Gwynfor Williams.

Cronfa Atgyweirio: Oherwydd cyflwr tŵr Eglwys St. Padarn, Llanberis, mae'r plwyfolion yn wynebu cost aruthrol (oddeutu £60,000) ac mae'r gwaith yn hollol angenrheidiol, ac nid oes modd ei osgoi. Bwriedir cynnal amryw o weithgareddau i helpu at y gost. Bydd mwy o fanylion yn ddiweddarach.

Llongyfarchiadau: Llongyfarchwn Alice Gaynor Jones, Maes Padarn a Siân Gwyn Griffiths, Dôl Elidir ar ennill gradd B.Add (Anrhydedd) yng Ngholeg y Normal, Bangor. Ardderchog y ddwy ohonoch. Bydd

Alice a Siân yn dechrau ar eu gyrfaon fel athrawesau ym mis Medi — Siân yn Salford ac Alice yn Birmingham. Pob hapusrwydd i'r ddwy ohonoch.



Mrs Esther Clarke: Yn dawel yn Ysbyty Bryn Seiont ar 27 Gorffennaf, bu farw Mrs Clarke yn 95 oed.

Fe'i ganwyd yn 9 Blaen y Ddôl, Llanberis, ac wedi cyfnodau o fyw yn Lerpwl fe ddychwelodd i'w chartref genedigol yn 1956. Treuliodd bedair blynedd olaf ei hoes ym Mhlas Maesincla, Caernarfon, a mawr yw diolch y teulu am y gofal a gafodd gan staff y cartref yn ystod y blynyddoedd hyn.

Bu ei hangladd yn Eglwys Sant Padarn ar Saedwrn, 31 Gorffennaf, pryd y gweinyddwyd gan y Parchedigion Peter Pritchard a James Clarke. Rhoddwyd ei chorff i orffwys ym mynwent Nant Peris. Derbyniwyd yn ddiolchgar roddion tuag at Plas Maesincla. Roedd y trefniadau yng ngofal Mr Myrddin Pritchard.

Rhedwyr: Ar ddydd Mercher, 28 Gorffennaf, aeth amryw o redwyr Llanberis i Aberdaron. Yn y ras filltir i blant o dan 7 oed daeth Robin Sweeney yn ail a Ceri Jones yn drydydd. Alwyn Jones a ddaeth yn gyntaf a Gareth Jones yn ail yn y ras 1-2 filltir i fechgyn o dan 12 oed. Bu'r genethod yn llwyddiannus hefyd gan i Elin Harding ddod yn gyntaf, Rachel Jones yn ail a Sarah Jones yn drydydd yn y ras i enethod o dan 12 oed.

Yn y ras 2 milltir i fechgyn o dan 16 oed fe ddaeth Alun Vaughan y rhedwr ryngwladol yn gyntaf gyda record newydd. Kevin Prytherch a ddaeth yn drydydd yn y ras 8.5 milltir i ddynion. Llongyfarchiadau i chi i gyd.

Ar Werth: Dodrefnyn (sideboard) 6 troedfedd o hyd, o goed golau, mewn cyflwr da iawn, pris £30. Ffôn: 0286 672646 (Llanrug).

Diolchiadau:

Dymuna Meira a Bert Pitts ddiolch yn fawr iawn i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

Dymuna Patricia, Balaclava House, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed; hefyd i Mrs Roberts, Mrs Brookes a'r plantos yn Ysgol Dolbadarn am y te parti a'r gacen. Dymuna hefyd ddiolch i athrawon, staff a phlant yr Ysgol am yr holl anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd pan yn ymadael o'i gwaith. Diolch yn fawr.

Dymuna Hefin ac Elizabeth, Balaclava House, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Arian ar 10 Awst. Diolch yn fawr.

Mae Tom a Violet Toleman, 2 Dôl Eilian, yn diolch i'w teulu a'r ffrindiau a'r cymdogion am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur dathlu eu priodas arian yn ddiweddar.




Dymuna Eirian a'r staff yn Bron Eryri ddiolch i bobl Llanberis a'r cylch am eu cefnogaeth ar achlysur y Ffair Haf lwyddiannus a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Brenhines Carnifal Llanberis: Hoffai Mari ddiolch i Bwyllgor y Carnifal a phawb a wnaeth y diwrnod yn un hapus iddi. Diolch yn fawr i bawb am yr anrhegion a'r arian a gafodd, a diolch yn arbennig i Idwal, Gwenno a Nicola.

Llongyfarchiadau i Peter Glyn Hughes, Glan Padarn, ar ennill gradd B.Sc. (Anrhydedd) ym Mhrifysgol Swydd Stafford. Llauer o gariad — Mam, Derek, Taid a'r teulu i gyd.

I gofio'n annwyl am Hetty Hughes, gynt o 7 Stryd Siallot, a fu farw 31 Awst 1984:

Er iddi fyned dros y ffin
Erys atgofion fel y gwin.
— Y Teulu.



Steven Edwards a rhai o blant yr Ysgol efo'r trên.

FFLAM ERYRI

C.O.R.G.I.

GWASANAETH A GWERTHIANT OFFER NWY

◊ TANNAU ◊ POPDAI
◊ BOILERI ◊ GWRES CANOLOG

Y cyfan wedi eu danfon a'u gosod yn broffesiynol am brisiau rhesymol gyda gwarant llawn.

Rydym yn gwerthu y cyfan sydd ar gael gan Nwy Prydain ac mae prisiau yr offer ar gael dros y ffôn gennym.

Hefyd ar eich cyfer, Tanciau L.P.G. wedi eu gosod heb ddim cost a nwy rhad i roi ynddynt.

ATGYWEIRIADAU, GWASANAETHAU BLYNYDDOL A GWASANAETH DARNAU AR FRYS

(0492) 650013

Perchennog — Geraint Fôn Williams, Glanrafon Eglwysbach, Bae Colwyn, Clwyd LL28 5UD

'Un Funud Fach'


UN O'R SAITH MIL

Mae 'na gyfres wythnosol yn Y Cymro sy'n rhoi cyfle i bobol amlwg ateb rhestr o gwestiynau. Un o'r cwestiynau hynny yw, 'Pa ddywediad neu ddihareb sydd bellaf oddi wrth y gwir?' F'ateb i'r cwestiwn hwnnw fydda, 'Mae hi 'run fath ym mhob man'. Mi glyws och y dywediad lawer gwaith mae'n debyg. Pobl yn sôn am gyflwr tlawd yr eglwys yn ein hardal a'n gwlad ac yn datgan yn bendant ei bod yr un fath ym mhob man.

Ond fedrai dim fod yn bellach oddi wrth y gwir. Tra rydym ni yn gweld eglwys yn gwanhau a chapeli yn cau, mae yna eglwys mewn rhannau eraill o'r byd yn tyfu ac yn cryfhau. Bwm yn Theatr Seilo yng Nghaernarfon neithiwr yn gwrandao ar gôr o eglwys yn Shillong yn yr India. Roedd rhyw 20 o bobl ifanc yn y côr, ac yr oeddynt yn cychwyn taith fer trwy Gymru. Un rheswm dros iddynt drefnu'r daith oedd eu hawydd i ymweld â Chymru, gwlad y cenhaden cyntaf i ddod a neges yr Efengyl i Fryniau Casia 150 o flynyddoedd yn ôl. Roedd rhyw 6000 o aelodau yn eglwys y côr hwn, a 7000 mewn eglwys arall yn yr un dref, a 4000 mewn eglwys arall. Mae'r eglwys yn tyfu o flynyddyn i flynyddyn. Peidied neb a dweud mai'r un yw'r stori ym mhob man!

Roedd yn dda clywed am y miloedd yn troi at yr Eglwys. Roedd yn braf clywed côr o ryw 20 o bobl ifanc yn canu mawl i'r Iesu. Roedd yn dda gweld eu llawenydd a'u hasbri. Ond yr hyn a gofiai fi yw tystiolaeth un o'r merched ifanc a gamodd i flaen y llwyfan i sôn am ei ffydd Gristnogol. Roedd wedi ei magu yn yr eglwys ac yn gorfod mynd i'r oedfa. Cofiwch, roedd hon mewn eglwys ag iddi 6000 o aelodau; eglwys ag ynddi ddigon o blant a phobl ifanc; eglwys fywiog ei haddoliad. Ac roedd y ferch ifanc yn 'bored' — dyna'r gair a ddefnyddiodd. Ond un diwrnod, ryw bedair mlynedd yn ôl, roedd Duw wedi siarad â'i chalon ac wedi dangos iddi ei gariad yn Iesu Grist. Roedd wedi dod i adnabyddieth fyw o'r Iesu. Synnwn i ddim mai rhywbeth tebyg oedd hanes aelodau eraill y côr, ac mai dyna oedd yn egluro eu brwdfrydedd a'u llawenydd amlwg.

JOHN PRITCHARD



LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Plaid Cymru: Bu'r pwyllgor yn cyfarfod i drefnu rhaglen y flynyddyn a gobeithiwn bod digon o amrywiaeth ynddi i ddiddori pawb. Bydd y tymor yn cychwyn ar nos Fercher, 8 Medi, yn y Sefydliad Coffa am 7.30 o'r gloch, pan ddaw O. M. Roberts, Dyffryn Conwy, atom i ddweud 'Hanes Penyberth'. Cawsom wledd o glywed Mr Roberts y llynedd yn sôn am hanes Plaid Cymru ac edrychwn ymlaen yn fawr at ei glywed eto eleni. Bydd croeso i aelodau a chyfeillion i'r cyfarfod. Trefnwyd hefyd ymweliad gan Gwmni Theatr Bara Caws gyda'u cynhyrchiad diweddaraf ar nos Wener, Hydref 1, yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30 o'r gloch. Bydd tocynnau ar gael gan aelodau'r pwyllgor neu ffoniwch 650200. Enillwyr diweddaraf y Clwb Cant yw — Gorffennaf: 1, Vera Williams, Awelon; 2, Mair Parry, Tir na N'og **Priodas:** Ddydd Sadwrn, 31 Gorffennaf, yng Nghapel Bethmaca, Glasinfryn, priodwyd Sian Edwards, merch Mr a Mrs Owie Edwards, 51 Bro Infryn, Glasinfryn, â Dylan Wyn Owen, mab Mr a Mrs Donald Wyn Owen, Tegfryn, Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Gweinyddwyd gan y Parchg Gwynfor Williams, Llanberis. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty Fictoria, Porthaethwy. Byddant yn cartrefu yn 2 Rhes Fictoria, Llanberis, a dymunwn y gorau i'r ddau yn eu bywyd priodasol.



Llun: ISLWYN JONES, Llanrug

Llongyfarchiadau i Ceri Angharad Jones am lwyddo arholiad piano, gradd 1 gydag theilyngdod; ac i Michelle Louise Roberts am lwyddo gradd 3 gydag anrhydedd. Mae'r ddwy yn cael eu hyfforddi gan Timothy Ward, Llanberis. Bu Michelle

yn llwyddiannus hefyd yn ei arholiadau Telyn, gradd 1 gyda theilyngdod. Da iawn chi.

Cydymdeimlo: Ar 30 Mehefin bu farw Mrs Dorothy Williams, Meirionfa, Stad Talybont, ond yn ddiweddar o gartref Willow Hall, Caernarfon. Yn enedigol o Flaenau Ffestiniog bu'n byw ym Manceinion am flynyddoedd cyn ymddeol a dod i Gymru. Cydymdeimlir a'i chwiorydd a'i chwaer-yng-nghyfraith, Mrs J. C. Williams, Bod Fair, a fu mor ofalus ohoni, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Diolchiadau:

Dymuna Llinos ac Elwyn Parry, Tyddyn Rhuddallt, ddiolch i bawb am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu mab, Elwyn Rhys, yn ddiweddar.

Dymuna Jennie Williams, Bod Fair, a'r teulu, ddiolch o galon am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd a ddangoswyd iddynt ar farwolaeth eu chwaer, Mrs Dorothy Williams gynt o Meirionfa, Talybont. Hefyd fe ddiolchir i'r rhai fu yn ymweld yn gyson tra y bu yng nghartref Willow Hall yng Nghaernarfon ac fe ddiolchir i staff Willow Hall am gofal ohoni. Diolch hefyd i Mr Myrddin Pritchard a'i staff am y trefniadau trylwyr.

PLAID CYMRU LLANRUG

Bydd O. M. ROBERTS yn dweud

HANES PENYBERTH

yn y Sefydliad Coffa
nos Fercher, Medi 8
am 7.30 o'r gloch

CROESO I AELODAU A CHYFEILLION

THEATR BARA CAWS yn cyflwyno

DIWEDD Y BYD gan Melcal Povey

yn Neuadd Ysgol Brynrefail

Nos Wener, 1 Hydref
am 7.30 o'r gloch

Trefnir gan gangen Llanrug Plaid Cymru

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon

LLANRUG

Caernarfon 673513



EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG

Dyddiad cau ar gyfer y
cystadlaethau llenyddol yw **MEDI
22, 1993.**

ENGLYN

Beddargraff cymeriad teledu
adnabyddus.

CERDD

'Storm'

CÂN YSGAFN

'Y Papur Bro'

GWAITH RHYDD/CREADIGOL

Unrhyw gyfrwng, e.e., stori, ysgrif,
drama ar unrhyw thema.

ERTHYGL FFEITHIOL

Erthygl addas i'w chyhoeddi yn
Eco'r Wyddfa, ar unrhyw destun.

LIMRIG

yn cynnwys enw lle

PARODI

Un o gerddi Ceiriog (dim mwy na
dau bennill)

CREU BRAWDDEG

o'r gair 'BRYNREFAIL'

I rai dros 60 oed:

SGRIPT AR GYFER

'MUNUD I FEDDWL'

Gellir ei chyflwyno ar dâp.

Dylid anfon y cyfansoddiadau i
oland Wynne, Fron Hyfryd Uchaf,
Ffordd-yr-orsaf, Llanrug, erbyn Medi
22.

YN EISIAU

GLANHAWR/WRAIG

I GAPEL PONRHYTHALLT

am fwy o fanylion cysyllter
ag Ysgrifennydd yr Eglwys ar
(0286) 650200

DRAENOG



Llongyfarchiadau i'r gŵr o
Llanrug a gyfrannodd yr unig
linell ddoniol i'r rhaglen
echrydus 'Swig o Ffilth' o'r
Steddfod, pan drôdd at y
'Cwîn' ac egluro, 'Nice to
meet you, but I'm a bit of a
Republican myself you know!'

Wavell Roberts

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch
cartref yn ardal Llanrug

O SIAMBAR SELWYN

Mae'n anodd penderfynu rhywsut prun ai ar ddechrau yntau ar ddiwedd y calendr eisteddfodol y daw'r Eisteddfod Genedlaethol. I gystadleuwyr, heb os, dyma'r pinacel, — dyma'r nod i ymgyrraedd ato, — cael cystadlu a llwyddo yn y brifwyl. Ond rhaid cofio, onibai am yr eisteddfodau lleol a gynhelir ledled Cymru yn wythnosol, fydda na ddim llwyfan i feirdd, cantorion, adroddwyr, a.y.b. i ymarfer ac i feithrin eu doniau. O fewn blwyddyn mi fydda i yn cael y fraint o ymweld â thua ugain o eisteddfodau lleol mewn pentrefi ledled gogledd Cymru. Ia, pentrefi, sylwch.

Pentrefi, nid trefi a dinasoedd Cymru sy'n cynnal eisteddfodau, mawr yw ein diolch a'n dyled i'r eisteddfodau hyn am roi cyfle i gystadleuwyr feithrin eu talentau.

Mae 'na nifer o gystadleuwyr talentog o fewn i ffiniau bro'r Eco, sy wedi cyrraedd ac wedi llwyddo ar lwyfan y Genedlaethol, drwy iddynt fwrw'i prentisiaeth yn wythnosol ar lwyfannau ein heisteddfodau lleol. Ac onid yw llwyddiant ysgubol Bryn Terfel yn enghraifft glasurol o hyn?

Ar ddiwrnod y cadeirio yn Llanellwedd eleni, roeddwn i'n cydgerdded â Bryn Terfel yng ngorymdaith yr Orsedd, ac yn atgoffa ein gilydd am y gwyliau a dreuliom gyda'n gilydd ar Ynys Minorca ychydig flynyddoedd yn ôl. Digwydd aros yn yr un gwesty roeddwn ni. Yn ystod y gwyliau, fe brynodd Bryn gitar, ac fe aeth i'w ystafell i ymarfer tipyn gyda'r offeryn newydd. Ymhen ychydig, fe gnociodd rhyw limpryn o Sais piwis, diamynedd ar ddrws ystafell Bryn a gofyn iddo ymdawelu. Ys gwn i sut teimlai y creadur digywilydd o Sais hwnnw, heddiw, pe gwyddai o, iddo feiddio gofyn i un o gantorion enwoca'r byd ma gau ei geg?

O gofio am y gwyliau hynny ar Ynys Minorca, mi alla inna ymfalchio mewn un ffaith, — sef i mi drechu Bryn Terfel mewn gem o 'denis'. UN gem allan o set cofiwch. Ond dyna fo — mi lwyddais.

Un a fwriodd ei brentisiaeth o Sadwrn i Sadwrn ar lwyfannau ein heisteddfodau lleol yw Bryn Terfel, ac mae'n barod iawn i gydnabod hynny ac i ddiolch am y cyfle a gafodd. Ymfalchiwn fel cenedl yn ei lwyddiant, a dymunwn iddo bob llwyddiant i'r dyfodol, i wefreiddio

cynulleidfaoedd ar lwyfannau'r byd am flynyddoedd lawer.

Mae'r hen sir Feirionnydd yn enwog am ei steddodau llwyddiannus, a braint bob amser yw cael gwahoddiad i eisteddfodau Llandderfel, Llangwm, Llanuwchllyn a Llanfachreth.

Roedd Eisteddfod Llanfachreth yn un arbennig eleni oherwydd roedd camerâu 'Hel Straeon' yno drwy'r dydd. Fe drefnwyd i ddilyn y 'ffyddloniaid eisteddfodol' o'u cartrefi i lwyfan eisteddfod Llanfachreth. Daw tri o'r ffyddloniaid hyn o'r Waunfawr, sef Mabon, Wmffra a Myra Turner. Hefyd fe welwn Katie Wyn o Landwrog, Einir Gwenllian o Ynys Môn, Robat John o Stiniog ac amryw eraill ymhob eisteddfod bron. (Gyda llaw, llongyfarchion fil i Robat John ar ei lwyddiant yn Llanellwedd.)

Cafwyd tipyn o hwyl yn Eisteddfod Llanfachreth. Pan oedd Mabon ar ganol ei unawd (ac yntau yn cael ei ffilmio, cofiwch), daeth clamp o ystum i gylchu o'i gwmpas o fel hofrennydd. Aeth i ddeud 'helô' wrth Eirian Owen y gyfeilyddes hefyd. Ond er gwaetha tricia'r ymwelydd pryfoclyd, lwyddodd o ddim i darfu ar y ddau berfformiwr cwblw broffesiynol hyn. Yn wir, fe sobreiddiodd yr ystum, a hongiad uwchben y llwyfan i fwynhau'r cystadlaethau. Dechreuodd aflonyddu pan oeddwn i yn beirniadu cystadleuaeth yr englyn. Os roedd o wedi cystadlu, fe ddwedwn i fod ganddo esgyll gwir ganmoladwy, ond doedd ei baladr o ddimystal o bosib.

Diolch am y criw ffyddlon yma sy mor gefnogol i'n heisteddfodau lleol

ni — halen y ddaear, — a gwir y dywedodd y Parchedig Emlyn Richards, Cemaes, tra'n arwain yn Eisteddfod Llanddeusant — 'Cadair olwyn Mabon yw'r gadair eisteddfodol enwoca yng Nghymru'.

Gŵyl gystadleuol yw'r Yn Chruinnacht ar Ynys Manaw hefyd, ac ym mis Gorffennaf mi ges i a'r Prifardd Aled Rhys Wiliam a'n gwagedd y fraint o gynrychioli Gorsedd y Beirdd yn yr ŵyl a gynhelid mewn pabell eang yn Ramsey.

Tua 75,000 yw poblogaeth Ynys Manaw, ond prin 600 sy'n medru siarad Manaweg. Fodd bynnag, mae'r nifer yn cynyddu gan ei bod hi'n bosib dysgu'r iaith (yn wirfoddol) yn yr ysgolion bellach. Er mwyn gallu cyflwyno cyfarchion yr Orsedd bu'n ofynol i minnau ddysgu ychydig o'r iaith, a mawr yw fy niolch i'r Bonwr Gwyn Price (Gwyn o'r Blaenau), sef 'Llys Gennad' answyddogol Cymru ar Ynys Manaw, am iddo drefnu i anfon gwersi ar dâp i mi, drwy gydweithrediad â'r Dr Brian Stowell, Trefnydd Iaith yr Ynys.

Roedd grwpiau o ddanwsywyr o Gymru, Llydaw, Cernyw, Alban a'r Iwerddon yn cystadlu yn yr ŵyl, ac roedd o'n brofiad hyfryd cael treulio ychydig ddyddiau yng nghwmni ein cyd-Geltiaid.

Ia, dechrau tymor arall o eisteddfota! Dechrau tymor arall o gicio pêl hefyd. Cynnyrch eisteddfod Caernarfon yw'r englyn hwn i gloi. 'Sbectol' oedd y testun, ac i ddilynwyd y bêl gron (yn enwedig cefnogwyr y 'Vale', pan oedd Orig wrth y llyw yno) does dim angen eglurhad arno. Yr awdur yw Arthur Thomas, Porthmadog, awdur y gyfrol ddiddorol *Straeon Celwydd Golau*, a mab i'r diweddar ganwr Richie Thomas, Penmachno.

SBECTOL

Yn galed am y goli — aeth Orig
A tharo'i ffenestri.
O dan draed, rhwng dau neu dri
Yna Tarw'n eu torri.

Ia, dyddiau difyr oedd y dyddia hynny — dyddia Orig, Tarw Nefyn, Tommy Jones, Wyn Davies, ac eraill, ac eraill, ac eraill . . .

Ac roedd Caernarfon yn chwarae yng Nghymru y dyddia hynny hefyd a'r Oval yn llawn cyffro.

GOFAL YN Y GYMUNED

Ers y 1af o Ebrill eleni mae newid wedi bod yn y modd y mae budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol yn cael eu talu o dan gynllun newydd Gofal yn y Gymuned.

Os oes angen i berson fynd i gartref gofal preswyl (residential care home) neu gartref nyrsio, ond heb fodd i dalu'r costau, cyfrifoldeb Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor Sir yn awr yw:

- ★ asesu yr angen am ofal
- ★ dod o hyd i le i'r person mewn cartref priodol
- ★ cyfarfod y gost i'r rhai sydd heb ddigon o arian i dalu eu hunain.

Mae Cymhorthdal Incwm (Income Support) yn daladwy i'r rhai uchod, ond mae'r dull o asesu yn wahanol i'r hen drefn, ac fe fydd angen i'r person wneud cyfraniad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol tuag at yr arian y maent hwy yn ei dalu i'r cartref.

Bydd y rhai oedd eisoes yn byw mewn cartrefi o'r math yma ar y 1af o Ebrill, ac sydd wedi parhau i fyw yno, yn gallu gwneud cais am Gymhorthdal Incwm fydd yn cael ei asesu o dan yr hen reolau cyn Ebrill.

Os ydych angen ychwaneg o wybodaeth ynglŷn â hyn, neu daflenni yn esbonio'r rheolau newydd, ffoniwch Linell Ddi-dâl Gymraeg Nawdd Cymdeithasol ar 0800 289011. Ni fyddwch yn talu am yr alwad, a chewch gyngor ar unrhyw fater arall yn ymwneud â Nawdd Cymdeithasol os mynnwch.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



Gwynedd Hotel & Restaurant

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.

Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.b.

Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Rhestr o enillwyr Clwb 300 am fisoedd Mehefin a Gorffennaf — Mehefin: £40: Mr Alwyn Williams, Garreg Fawr; £25: Mrs Beryl Jones, Dôl-y-coed; £10: Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan. **Gorffennaf:** £40: Mrs Cadi Jones, Nant; £25: Mrs Laura Williams, Tros-y-gors; £10: Mr A. Jones, Cynant Lodge.

Er i'r tywydd fod braidd yn siomedig yn ystod yr haf gobeithio ichi i gyd gael gwyliau da ac yn barod i ail-afael yn yr awennau unwaith eto. Bydd llawer o blant a phobl ifanc y pentref yn cychwyn gyrfa mewn ysgol, coleg a gwaith, a dymunwn y gorau i bob un ohonynt, gan longyfarch y rhai a fu'n sefyll arholiadau diwedd y tymor diwethaf am wneud mor rhagorol.

Priodasau: Llongyfarchwn y pum pâr ifanc canlynol a briodwyd yn ystod yr haf:

— David Joy o 1 a 2 Caer Waun a Carys Wynne o Rostryfan, maent wedi cartrefu yng Nghaer Waun; — Huw Ynys, Tan-y-fron a Iola Evans o'r Wyddgrug, sydd wedi cartrefu yng Nghlwt-y-bont;

— Rhian Williams, 2 Bro Waun a Clive Owen o Gaernarfon, ac mae'r ddau yn cartrefu yn Stad Tŷ Hen; — Rhian Williams, Stad Tŷ Hen a Gwyn Jones, ac fe fydd y ddau yn cartrefu yng Nghlan Conwy;

— aros yn ei gartref, Eryri Wen, y bydd Dylan Rhys Jones gyda'i briod, Nia o Rosisaf.

Dymunwn pob hapusrwydd ichi yn eich bywyd priodasol.

Diolch: Dymuna Nia a Dylan Rhys Jones, Eryri Wen, Stad Bod Hyfryd, ddiolch i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am y lluo o anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas ar 10 Gorffennaf.

Dathlu Pen-blwydd Priodas: Llongyfarchiadau i

— Dr a Mrs Raymond Williams, Tros-y-gors, ar ddathlu eu Priodas Arian; — Mr a Mrs Rob Jones, Tan-y-fron, hwythau yn dathlu eu Priodas Arian; — Mr a Mrs Gwilym John Roberts, Llwyn Celyn, ar ddathlu eu Priodas Rhuddem;

— Mr a Mrs H. Williams, Stad Croes-y-waun, ar ddathlu eu Priodas Aur. **Llwyddiannau Eisteddfodol:** Yn yr Eisteddfod Genedlaethol enillodd Iolo Huws-Roberts, Bodrida, wobwr yn y gystadleuaeth Hir a Thoddaid. Daeth Elin Gwilym, Llidiart Wen, yn ail yn y gystadleuaeth adrodd digrif. Bu Lowri Glyn ac Ifan Glyn, Plas Bodhyfryd; Aled Rhys Jones, Pen-y-graig; Catrin Meurig, Stad Croes-y-waun; a Nan Morgan, yn llwyddianus mewn cystadlaethau technoleg a gwyddonol yn yr Eisteddfod.

Llwyddiannau cerddorol: Bu Catrin Lowri, 3 Croes-y-waun; Heddus Gwynedd, Nant; Llio Mair, Llwyn Onn a Bethan Cadwaladr (Dolgellau rŵan) yn llwyddianus yn arholiad Gradd 4 theori cerddoriaeth; a Heledd Elfryn, Coed Gwydryn, yn llwyddianus gydag anrhydedd yn arholiad Gradd 4, piano.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Martin Roberts, Sŵn-y-gwynt, a Rhodri Siôn, Pant Teg, ar ddathlu eu pen-blwydd yn 18 oed; ac i Euros Wyn,

Y Frenni, ar gyrraedd ei 21 mlwydd oed.

Dathlodd Mr David Jones, Lynfod, ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed; a chyrhaeddodd Mrs L. Evans ei 91 mlwydd oed; a Miss C. E. Williams yn dathlu ei phen-blwydd yn 93 mlwydd oed. Llongyfarchiadau ichi a chofion cynnes atoch.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i John a Linda, Bro Waun, ar anedigaeth eu merch fach.

Llongyfarchiadau i Mrs Marian Williams, Stad Tŷ Hen, ar ddod yn nain, ganwyd mab bach — Deion Rhys — i'w mab Meirion a'i wraig Helen; ac i Mrs M. Owen, Tref Eilian, ar ddod yn hen nain i'r bychan.

Llongyfarchiadau i Tegid a Sam Pritchard, Stad Croes-y-waun, ar enedigaeth merch fach, Cara Jane, ac i Mr a Mrs Lleufer Pritchard, Canolfan Carpedi, ar ddod yn daid a nain.

Trin Cŵn Defaid: Llongyfarchiadau i Gerallt Jones, Cynant Lodge, ar ennill dwy wobwr yn Ymryson Cŵn Defaid Betws Garmon. Enillodd dlws i rai dan 15 oed, cyflwynedig gan Mr a Mrs R. Parry, Ffridd Felan, Waunfawr; a thlws i rai dan 21 oed, cyflwynedig gan Mr Gwilym Thomas, 'Jeweller', Pen-y-groes. Da iawn chdi Gerallt, dal ati, efallai y byddi cystal â taid!

Diolchiadau:

Dymuna Mrs G. M. Jones, Tref Eilian, a'r teulu ddiolch i'w chymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli chwaer Mrs Jones.

Dymuna Mr a Mrs Gwilym John Roberts, Llwyn Celyn, ddiolch am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd eu merch, Eira Wyn, tra y bu yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod adref.

Dymuna Mrs Elen Jones (Eryri Wen gynt — Nel Bach Lôn Glai) ddiolch i gymdogion Stad Bodhyfryd a chyfeillion pentre'r Waun am y cardiau a'r dymuniadau da iddi yn ei chartref newydd, Rhianfa, Saron, Bethel. Diolch hefyd i aelodau eglwys Croes-y-waun, ar gweithgareddau yn y pentref am y croeso a gafodd ar hyd yr amser y bu'n byw yma.

Dymunwn yn dda i Mrs Jones, ac i'r teuluoedd eraill a symudodd o'r Waun, ac i'r rhai sydd wedi ymgartrefu yma, yn eu cartrefi newydd.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mr H. Westphal, Stad Tref Eilian, sydd yn yr ysbyty ym Mangor; ac i Mr Thurley, Stad Tref Eilian, sydd hefyd yn yr ysbyty.

Adref o'r Ysbyty: Croesawn Mrs Ceri Owens, Stad Croes-y-waun; Mrs M. Owen, Tref Eilian; Mr Morris Lewis, Tŷ Newydd; M. J. Sprot, Gwynllys; Aled Griffith, Stad Tŷ Hen; a Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau, adref o'r ysbyty gan ddymuno adferiad iechyd llwyr a buan ichi.

Damweiniau: Cyfarfu Osian, Stad Tŷ Hen â damwain a thorri ei fraich.

Syrthiodd Mrs Gill Brown, Gwelfor, i lawr y grisau a thorri ei ffer. Gobeithio y cewch eich dau dynnu'r plastr yn fuan iawn.

Dymunwn wellhad buan i Jonathan Richards, 19 Stad Tŷ Hen, sydd yn yr ysbyty yn dilyn damwain gyda'i foto-beic.



Dylan a Nia Jones ar ddydd eu priodas.

Cydymdeimlo: Yn ystod yr haf collwyd dau o drigolion y Waun ac estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Olwen Owen, Noddfa, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, Mr Bill Owen, ac i Lisabeth, Gwenno a Huw yn eu profedigaeth o golli tad.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr John Cotton, Crug-y-mynydd, yn ei brofedigaeth o golli ei briod, Mrs Mair Cotton, ac i Clive, Alan a Robert yn eu profedigaeth o golli mam.

Cydymdeimlir â Mrs M. A. Owen, Stad Tŷ Hen, colli brawd; Mrs Jones, Lynfod, colli brawd; Mr Gwynedd Williams, 2 Bro Waun, colli brawd; Mr Huw Williams a Mr Emlyn Williams, Stad Croes-y-waun, colli brawd.

Antur y Waunfawr: Cynhelir Ras Antur 10k a Ras Hwyl ar ddydd Sadwrn, Medi 25, am 2 o'r gloch o'r Ganolfan. Y Ras Hwyl i'r hen a'r ifanc — abl ac anabl — **medal i bawb sy'n cwblhau'r cwrs.** Bydd yno stondinau a chaffi. Dewch i fwynhau'r hwyl. Os am fwy o wybodaeth ffoniwch Antur Waunfawr 650721.

Capel Bethel, Waunfawr: Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau ar ddydd Sul, 12 Medi, **AM 10 O'R GLOCH Y BORE** y bydd y cyfarfod ac **NID AM 2 O'R GLOCH Y PNAWN, fel cynt.** Edrychwn ymlaen i gael derbyn aelodau newydd i'n plith.

Yr Eisteddfod: Cafwyd Noson Goffi lwyddiannus yn y Ganolfan, ar nos Wener, Mehefin 25, ac fe wnaed elw o £178 i goffrau'r Eisteddfod sydd i'w chynnal ym mis Tachwedd eleni. Enillwyr y rafflau oedd 1, Margaret Owen; 2, Heulwen Huws; 3, Sylfia Jones; 4, Arthur Ellis; 5, Elena Jones; 6, Nan Wyn; 7, Delyth Gordon; 8, Catrin Keller. Pwysau'r gacen: Liz Daniels. Cyfiri'r Smarties: Iris Owen. Yn absenoldeb Irene Roberts fe ddiolchodd Heulwen Jones ar ran pwyllgor yr Eisteddfod i bawb am eu cefnogaeth.

DALIER SYLW: Bu 'Diawl y Wasg' wrth ei waith ar Restr Testunau yr Eisteddfod ac mae yna wall ar dudalen 10 o'r Testunau. Fe ddylai ddarlenn: Blwyddyn 1, 2 a 3: Diwrnod Arbennig o'ch Dyddiadur.

Cyfeillion yr Ysgol Gynradd: Cynhaliwyd Ffair Haf lwyddiannus yn yr Ysgol ar nos Fercher, 15 Gorffennaf. Enillwyr y raffl oedd: Mrs Caren Thomas; Mrs Jane Elen Roberts; Mrs Chris Evans; Mrs Ann Edwards; Mrs Chris Evans; Mrs Ruth Sanderson; Mr Gwynfor. Enillydd cystadleuaeth 'Pen-gliniau Pertaf' oedd Mrs Gwynfor Jones. Pwysau'r gacen: Mrs Sylvia Prys Jones. Cyfri potel o bethau da: Heledd Elfryn. Enwi'r ferlen: Gwenllian Dafydd.

Ynys y Trysor: Trefor Meirion Jones. Pwy ydy'r Plant: Mrs Chris Evans. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu rhoddion a'u cefnogaeth ar y noson. Diolch yn arbennig i Anti Ann ac Anti Mary am eu help hefo'r lluniaeth.

Yr Urdd: Bydd tymor yr Urdd yn ail ddechrau ar Fedi 15fed yn y Ganolfan rhwng 6.15 a 7.15 o'r gloch, a noson gofrestru fydd y noson honno. Mae croeso i bawb sydd rhwng 7 a 12 oed i ymuno a'r tâl ymaelodi fydd £4.

Mae angen rhieni i helpu ar nosweithiau'r Urdd ac os oes gennych ddiddordeb a fuasech cystal a chysylltu â Heulwen Jones ar Waunfawr 650388.

Y Gymdeithas Lenyddol: Bydd tymor y Gymdeithas Lenyddol yn dechrau nos Lun, Hydref 25, pan y disgwylir Maureen Rhys a John Ogwen i roi noson o gyflwyniad ysgafn o dan y teitl 'Ci a Chath'. Yn ystod y tymor ceir sgysiau amrywiol ar fod yn aelod o dim achub ar yr Wyddfa gan John Grisdale; taith i Ganada gan Gwilym O. Williams; Geraint Lloyd Owen yn hwyliog drin rhai darnau o farddoniaeth; Edgar Wyn Parry yn olrhain hanes teithwyr cynnar Eryri; hanes y gymdeithas a fu gynt yng Nghwm Brwynog gan Rol Williams; a bydd y Parchedig Richard Jones yn datgely cynnwys dyddiaduron difyr a hwyliog y diweddwr Barchedig D. J. Lewis, cyn-weinidog capel Bethel. Yn ogystal ceir noson o gystadlaethau barddonol rhwng gwahanol dimau o'r Gymdeithas. Edrychir ymlaen i groesawu aelodau newydd a'r ffyddloniaid arferol y tymor hwn eto.



Gerallt Jones, Cynant Lodge, a fu'n llwyddiannus yn Ymryson Cŵn Defaid Betws Garmon.

DIOLCH

(Fe ddaeth y nodyn hwn i law. Yn anffodus, ni wyddom dan pa bentref y dylid ei gynnwys — Gol.)

Dymuna Debra a Graham Thompson ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am yr holl anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas ar Fehefin 5ed.

CHWILOTA

TAFARNAU LLANBABO



Yn dilyn y gwahanol awgrymiadau ar pam y galwyd Ebenezer yn 'Llanbabo', derbyniais lythyr diddorol gan Mr Owen Jones, 11 Rhos Llwyn, Llangefni, yn sôn am wahanol dafarnau ardal Ebenezer a Chlwt y Bont. Yn arwyddocaol, mae ei ddisgrifiad o un o'r tafarndai yn ychwanegu at y goel/gwirionedd (?) ynglŷn ag adeilad ar ffurf eglwys babyddol — Llan Pâb. Dyma sydd ganddo i'w ddweud am dafarn y 'Red Lion' a safai ble mae Manchester House heddiw:

'Yn ôl fy ewythr, sef y diweddar Morris D. Jones, Llanrug (Glan Caledffirwd), bu gŵr o'r enw Richard W. Griffiths yn cadw y 'Red Lion'. Cyfnewidiodd ffyrnt y tŷ a'i wneud ar ffurf capel Pabyddol, gan roi wyneb cloc ar y canol. Ataliwyd ei drwydded ym mis Medi 1873.'

Tybed oes rhywun arall yn gwybod am y traddodiad hwn?

Mae Mr Jones hefyd yn sôn am nifer o dafarnau eraill. Un ohonynt oedd 'Tafarn ab Ifan', cartref gŵr o'r enw John Jones. *'Torodd ei goes yn ddrwg yn y chwarel ac aeth i letya i Gaernarfon er mwyn bod mewn cyrraedd i'r meddyg. Tra yno, cafodd droedigaeth, a bu yn grefyddwr selog am weddill ei oes.'*

Safai yr 'Union' ger Capel Ebenezer, ac yn ôl Mr Jones, credir ei bod wedi cau ar ôl i wr gael ei ladd mewn ymladdfa yno. Y tafarnau eraill oedd 'Sain Delyn', ger y Central Stores, a'r 'Drum' yn Gwalia House; y 'Vaynol Arms', y 'Bull' a'r 'Wellington' — i gyd ar y Stryd Fawr. Lle'r adeiladwyd y Co-op yn ddiweddarach roedd tafarn y 'Prince of Wales'.

Yng Nghlwt y Bont roedd pum tafarn — y 'Crown', 'Quarryman's Arms', 'King's Head', y 'Black Lion' neu'r 'Black Horse' a'r 'Cross Keys' yn Rhes Gwyrfa.

Erbyn diwedd y ganrif ddiwethaf roedd nifer y tafarnau wedi gostwng — canlyniad y mudiad dirwestol o bosibl. Erbyn 1885 dim ond y 'Bull', y 'Wellington', y 'Vaynol Arms' a'r 'Prince of Wales' oedd yn aros yn Neiniolen, a'r 'Quarryman's Arms' a'r 'King's Head' yng Nghlwt y Bont.

Llawer o ddiolch am lythyr Mr Jones. Tybed a oes eraill o'r darllenwyr â gwybodaeth am hen dafarnau — neu luniau o bosibl.

* * * * *

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri
am brisiau rhesymol
**ELWYN
PRITCHARD**
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun — Gwener
10.00 — 3.30
I gysylltu tu allan i'r oriau
hyn ffoniwch
**Llanberis 870922
neu Bangor 351427**

GAMBI

Yn dilyn cais am wybodaeth am le o'r enw 'Gambi' ar dir fferm y Glasgoed, daeth galwad ffôn oddi wrth Mrs M. G. Williams, Bethel, yn nodi fod W. J. Gruffydd yn ei lyfr *Hen Atgofion* yn sôn am Cae Gambi ar fferm Cae Metta, sy'n ffinio â thir y Glasgoed. Yn ei atgofion dywed fod *'teulu Cae Metta, drwy fawr ddiwydrwydd, wedi gwneuthur siogan eithiog yn borfa weddol, wedi troi Cae Gambi yn dir â, wedi symud olion y cenedlaethau coll yn y Cytiau Crynion mewn rhai conglau o hen Ddolwen a'r Gerlan, a gwneuthur cloddiau anferth ohonynt i gau allan y Cae Glas a'r Llain Hir.'*

Ond ble'n hollol roedd — ac y mae — y Cae Gambi hwn; a beth yw ystyr yr enw?

* * * * *

MWY O FFYNHONNAU

Dros yr haf gwlyb deuthum ar draws cyfeiriadau at ddwy ffynnon arall mewn hen ddogfennau — Ffynnon Rivid — o bosibl yn ardal Pontrug, a Ffynnon Mymbre yn Llanddeiniolen. Aethant ar ddifancoll erbyn heddiw.

Gallai 'Rivid' gyfeirio at Rivid ap Tegur a oedd yn berchen tir yn Llanrug yn ôl Stent Caernarfon. Mae'r enw llygreddig yn dal ar ddefnydd heddiw yn fferm Tyddyn Rhyddid (sef tyddyn gŵr o'r enw Rhivid).

* * * * *

**MODURDY
PLAS
BACH
CAEATHRO**
Ffôn: C'fon 672072
Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

MARGED UCH IFAN A CHRAIG YR UNDEB

Daeth cais o Lanrug gan Mrs M. Varney yn holi beth sydd wedi digwydd i'r garreg gron ar ben Craig yr Undeb. Yn ôl traddodiad gosodwyd y garreg yno gan Farged uch Ifan ar ôl iddi ei chario i'r copa yn ei barclod. Ydi'r garreg wedi disgyn, ynteu a yw wedi ei chuddio gan dyfiant?

Gyda llaw, sgwn i beth oedd yr enw ar Graig yr Undeb cyn ei galw yn Graig yr Undeb? Unrhyw syniadau?

* * * * *

CYFNOD Y DOSBARTHADAU NOS

I'r rhai sy'n ymddiddori mewn Hanes Lleol, mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr ac Adran Efrydiau Allanol Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, yn cynnig nifer o gyfarfodydd o fewn cyrraedd hwylus i'r fro:

CAERNARFON

Ystafell Ddarlithio yr Institiwt.
'Y Teithwyr Cynnar yn Eryri 1750-1850' — golwg ar hanes Eryri trwy lygaid y teithwyr.
5 cyfarfod dan ofal Mr Edgar W. Parry. Bob nos Lun am 6.30 o 6 Medi

DINORWIG

Y Ganolfan.

Golwg bellach ar hanes yr ardal.
5 cyfarfod. Bob nos Fawrth am 7.00, o 7 Medi

LLANRUG

Yr Ysgol Gynradd.

Golwg ar hanes Dyffryn Peris. Cwrs addas ar gyfer rhai sydd wedi ymgartrefu yn yr ardal yn ddiweddar.
5 cyfarfod. Bob nos Fawrth am 7.00, o 12 Hydref.

Bydd croeso cynnes i aelodau hen a newydd i'r dosbarthiadau hyn.

Unrhyw sylwadau, ymholiadau, lluniau ar agweddau o hanes y fro, anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (Ffôn: 0286 673515).

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Llongyfarchiadau i blant y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau yn yr ysgol a cholegau. Dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol.

Llongyfarchwn Marie ac Alan, Mona, ar enedigaeth mab, Gethin Wyn, brawd bach i Dewi Wyn.

Estynnwn ein llongyfarchiadau hefyd i Leigh, Bwlch, ar ennill cystadleuaeth yn y papur dyddiol 'Sun'. Gwnaeth Leigh gerflun o 'dinosaur' ac fe fydd canlyniadau'r gystadleuaeth yn ymddangos yn y papur maes o law.



Leigh a'i ddeinosor.

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i deulu Mr Tom Owen, 3 Maes Gerddi, yn eu profedigaeth; a hefyd i deulu Miss Wright, Manchester House, a theulu Mrs Rogers, Llwyn Onn.

Adran Gymuned: Cynhelir prawn o chwaraeon, stondinau, rafflau, cŵn-

poeth, ac ati, ar y Cae Chwarae ar ddydd Sadwrn, Medi 11, gan ddechrau am 1.30 o'r gloch. Bydd pris mynediad, trwy raglen, i oedolion yn 30c a 15c i bensiynwyr a phlant. **Clwb Pobl y Cwm:** Ddydd lau, 24 Mhefin, croesawodd y llywydd, Mr Llew Hughes, ein gwaig wadd, sef Miss Annie May Williams o Frynrefail. Cawsom y pleser o wrando ei phrofiadau ar ei hymweliad ag Awstralia a gwledydd eraill. Roedd y ddawn ganddi i drosglwyddo hanesion diddorol ac ambell i dro trwstan ar ei arhosiad yno. Cyfarfu a theulu y diweddar Owen Jones, Penybwlch, sydd wedi ymsefydlu yn y wlad honno ers blynnyddoedd ac yn naturiol mwynhawyd sgysiau pleserus am atgofion o'r dyddiau cynnar ym Mrynrefail a'r Cwm. Fel cyfeilles agos i Miss Williams a'r ddwy wedi treulio eu dyddiau cynnar yn yr un ardal, sef Clegir, diolchodd Mrs Gwyneth Chick iddi am ei sgwrs ddifyr. Gofalwyd am y baned gan Miss E. Hughes a Mrs E. Hughes ac fe enillwyd y raffl gan Mrs H. M. Roberts.

Trodd diwrnod terfynol y tymor yn un siomedig oherwydd tywydd anffafriol. Bu'r aelodau yn ymweld a Sir Fôn a chael ysbaid yn y masnachdy enwog yn Llanfairpwll cyn mynd ymlaen i gyfeiriad Caergybi, ac wedi gwleda yno cyfeirio ein camre tuag adref ar hyd glannau môr orllewinol yr ynys.



Plant Blwyddyn 6 Ysgol Cwm-y-glo a gafodd drip i fyny'r Wyddfa ar y trênn yng nghwmni Dewi Pws a Gaenor. Gwelwyd hwy ar raglen Slot Sadwrn.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaith); 677438 (cartef)

Cae Chwarae: Cynhaliwyd 'Gŵyl o Hwyl' ar y cae chwarae ar ddydd Llun Gŵyl Banc Awst. Cyfartal oedd y gêm bêl-droed rhwng yr ifanc a'r hŷn. Cafwyd rاسus a thynnu rhaff. Enillydd y raffl oedd Alison Jones (Lovell gynt). Diolch i'r pwyllgor am drefnu, y cefnogwyr am eu cefnogaeth, y rhoddwyr am eu rhoddion a'r tywydd am yr haul!

Y Capel: Disgwyli'r canlynol i wasanaethu yn y dyfodol agos — 12 Medi: R. John Hughes am 2 19 Medi: Parchg W. R. Williams, Bugail, am 2

26 Medi: Parchg H. Gwynfa Roberts am 2.

3 Hydref: Diolchgarwch — Bugail am 2

10 Hydref: Parchg J. Jones Parry.

Yn ogystal ar 26 Medi bydd Cymanfa Ganu yn y Capel i ddathlu canmlwyddiant marwolaeth y cyfansoddwr lleol William Owen, Prysgol.

Sioe'r Plant: Cafwyd sioe gweddol lwyddiannus ar 14 Awst. Bydd cyfarfod blynyddol y sioe a phwyllgor yn y Ffestri ar nos Fercher, 15 Medi, am 7 o'r gloch. Croeso i bawb.

Pwyllgor y Cae Chwarae: Cynhelir pwyllgor ym Mryngwna ar nos Lun, 20 Medi am 8 o'r gloch i dynnu'r raffl ac i drafod y posibilrwydd o gynnal cwis Nadolig yn y pentref. Croeso i bawb.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon (Waunfawr 799)

Llongyfarchiadau i Mrs Annwen Jones, Gwelfor, ar fod yn nain eto — ganwyd mab i Carys ac Arwel, sef Daniel Gwyn, brawd bach i Iwan.

Llongyfarchiadau i Bryn a Sharon, Gwynfryn, ar eu priodas yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Llwyddiant arholiadau: Llongyfarchwn bawb a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau TGAU yn ddiweddar.

WRTH GOFIO'R DDAMWAIN

Ganol Awst eleni yr oedd sôn am Lanberis ar brif fwletinau newyddion gwledydd Prydain ac ar dudalennau blaen y papurau newydd. Gwaetha'r modd, damwain erchyll oedd yn gyfrifol am hynny. Plymiodd un o hofrenyddion y Llu Awyr i ddyfroedd Llyn Padarn a lladdwyd tri o bobol ifanc o ogledd Lloegr oedd yn yr hofrennydd.

Yn dilyn y ddamwain fe gysylltodd un o ddarlennwyr yr Eco â ni. Yr oedd Mrs D. M. Jones, Y Foelas, Llanrug, wedi bod heibio'r fan y digwyddodd y ddamwain a daethai'r cwpled hwn i'w meddwl:

Llun y llynoedd llonydd — a gysgant Mewn gwasgodd o fynydd.

Mae Mrs Jones yn gofyn a oes rhywun yn gwybod gweddill y pennill a phwy yw'r awdur. Rhowch wybod i ni ac fe drosglwyddwn y wybodaeth i Mrs Jones.

CLWB RYGBI WIGAN YN CYDNABOD BACHGEN LLEOL

Dyma a ymddangosodd yn rhifyn y seithfed o Fai eleni yng nghylchgrawn wythnosol y Clwb o dan y pennawd 'Unsung Heroes':

DEREK LLOYD JONES

Daeth Derek i Wigan yn 1969, wedi iddo gael gwahoddiad gan Billy Woods aelod o Seindorf Arian Wingates, a chaiff ei adnabod heddiw fel 'Taffy' gan ei ffrindiau a'i gydweithwyr yn Central Park. Y rheswm am y gwahoddiad oed fod Derek yn chwaraewr cornet penigamp gyda Seindorf Arian Llanrug yng Nghymru. Roedd Derek wedi bod yn chwarae'r cornet ers 1948, pan gydiodd yn yr offeryn am y tro cyntaf pan yn naw mlwydd oed.

Profodd ffydd Billy Woods o werth yn 1971 pan roddodd Derek help llaw i Wingates i gipio'r Bencampwriaeth Brydeinig. Aeth Derek ymlaen wedyn i arwain Seindorf Haigh am gyfnod, a chwarae Rygbi Undebol fel aelod o dîm Wigan Old Boys. Dechreuodd ei gysylltiad gyda Chlwb Rygbi'r Gynghrair Wigan yn 1976 pan gafodd ei apwyntio yn swyddog taclau'r clwb. Cyfunodd y swydd honno â swydd arall yn ddiweddarach, sef y swydd gyfrifol iawn o dirmon yn Central Park. Yn ystod y tymor diwethaf, pan nad oedd gemau yn cael eu chwarae ar y maes yn Wigan, fe arolygodd Derek y broses o ail-hadu maes chwarae'r Clwb.

Mae Derek yn edrych ymlaen yn awr tuag at ei ddeunawfed tymor gyda'r 'Riversiders', ac yn gobeithio yn arw mai dyma fydd y tymor y caiff ei nawfed ymweliad â Wembley.

Mae teulu Derek yn parhau i ffwyn yn ei blwyf genedigol, sef Llanrug. Ei fam yw Mrs Elizabeth Lloyd Jones, Lyndale, Ffordd-yr-orsaf, Llanrug.

Pob lwc i Derek a'i glwb yn y bencampwriaeth rygbi ac yn ystod y tymor rygbi nesaf.

O DDEINIOLEN I BEDWAR BAN BYD


Anfonodd un o'n darllenwyr rifyn Awst 19 o'r *Daily Telegraph* atom gan ddwyn ein sylw at goffad oedd ynddo i ŵr busnes llwyddiannus a fu farw'n ddiweddar. Yr oedd Alun Thomas yn Is-gadeirydd Grŵp Delta, un o brif gyflenwyr nwyddau metel ar gyfer y diwydiant trydan. Soniai'r goffad am ran allweddol Mr Thomas yn natblygiad ei gwmni mewn gwledydd fel Awstralia, Brasil a De'r Affrig. Yr oedd yn un wŷr amlwg y diwydiant metel Prydeinig. Yr hyn a ddenodd sylw ein darlennydd oedd y paragraff hwn: 'Ganwyd Alun Thomas ar Orffennaf 11, 1914, yn Neiniolen, Gogledd Cymru. Addysgwyd ef yn lleol, ac aeth ati i ofalu am fusnes y teulu ar ôl i'w dad farw'n ifanc.'

Mae'n bosib iawn bod yna deulu iddo yn yr ardal o hyd. Tybed a allwn gael rhagor o wybodaeth amdano. Beth tybed oedd y busnes teuluol y bu'n gofalu amdano cyn ymuno â'r fyddin yn 1939?

O'r oes o'r blaen . . .



Mrs Mattie Hughes, Tan y Clogwyn, Llanberis, sy'n awyddus i gael gwybod os oes rhywun yn cofio'r bedair gwraig sydd yn y llun hwn. Mae'n credu bod y llun wedi ei dynnu wrth ymyl Capel Coch yn y 40au. Ydi steil y dillad yn awgrymu'r cyfnod? Mae Mrs Hughes yn gweld rhyw debygrwydd i rywrai neu'i gilydd, ond byddai'n falch o gael enwau'r bedair gwraig fonheddig gan rywun sy'n eu cofio.



Plant o Ysgol Sul Capel Coch, Llanberis, a fu'n aros yng Ngholeg y Bala yn ddiweddar. Bu ambell un yn eistedd wrth droed y Dr Lewis Edwards!

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



Dewis eang o Welyau Sengl a Dwbl.
Dewis eang o '3 Piece Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
Gwaith Contract.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?


WAUNFAWR 650291

ECO'R IFANC

Cysylltwch y
dotiau, a lliwiwch
y llun.



PÔS MEDI



1. Y mis ar ôl Medi
2. Mwyar —
3. Sawl diwrnod sydd ym Medi
4. — bach Mihangel
5. Medi yw — mis y flwyddyn
6. Mae'r rhain yn ail agor ym Medi
7. Ym mha dymor mae Medi?
8. Y mis o flaen Medi

DWY GÊM AR ÔL

Noson cyn cyhoeddi'r Eco hwn bu Cymru yn chwarae yn erbyn y Gweriniaethau Tsiec a Slovac a chyfartal oedd y sgôr — 2-2.

Mae 'na ddwy gêm ar ôl cyn rowndiau terfynol Cwpan y Byd yn 1994.

Fedrwch chi ddyfalu'r sgôr yn y ddwy gêm hynny?

A phwy fydd yn sgorio goliau Cymru yn y ddwy gêm — CYMRU v CYPRUS a CYMRU v ROMANIA

Anfonwch eich cynigion at Eco'r Wyddfa, Cilfynydd, Llanberis.

Fedrwn ni ddim addo tocynnau i'r America i'r enillydd ond tybed pwy fydd yn dyfalu'n gywir.

POB HWYL I'R TÎM

CORNEL JÔCS

Doctor: Bobol bach, be ydi'r peth rhyfedd yna ar eich gwddf chi?

Claf: Fy mhen i doctor.

Wil: Syr, mi fedra i neidio'n uwch na phostyn rygbi.

Athro: Na fedri siŵr. Mae postyn rygbi'n uchel iawn.

Wil: Ond fedr postyn ddim neidio, syr!

Cnoc, cnoc.

Pwy sy' 'na?

Ceri.

Ceri pwy?

Cer i brynu cloch i'r drws yna.

Cnoc, cnoc.

Pwy sy' 'na?

Llewela.

Llewela pwy?

Lle welais i chdi o'r blaen?

Wil: Syr, pa ddiwrnod sy'n dechrau efo'r llythyren 'H'?

Athro: Does yna 'run diwrnod yn dechrau hefo'r llythyren 'H'.

Wil: O, oes syr — Heddiw!

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Diolchiadau:

Dymuna Siân Emlyn, Bethlyn, ddiolch o galon i'w theulu a chyfeillion am eu llongyfarchion, cardiau ac anrhegion a dderbynion yn dilyn ei llwyddiant yn ei arholiadau lefel-A.

Mae Esyllt Môn Jones, Y Rhos, hefyd am ddiolch yn fawr iawn am yr holl anrhegion, cardiau a dymuniadau da a dderbyniodd hithau ar ei llwyddiant yn ei arholiadau lefel-A.

Llongyfarchiadau:

Llongyfarchwn holl blant yr ardal ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU a lefel-A eleni, mae'r canlyniadau eleni yn gyffredinol o safon uchel iawn ac yn dwyn clod i'r disgyblion ac ysgolion y fro. Dymuniadau gorau i bawb yn eu meysydd newydd ym mis Medi — y rhai sydd yn mynd ymlaen i waith, yn ôl i'r ysgol ac i addysg bellach.

Llongyfarchiadau i Gwenan Davies ar ennill gradd eleni. Mae Gwenan

wedi ei phenodi i swydd gyda chwmni o gyhoeddwy yn Llundain a dymunir y gorau iddi yn ei gyrfa.

Llongyfarchiadau i Angharad Price, Tan y Ffordd ac i Non Llewelyn Jones, Stad Eryri ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanellwedd. Enillodd Angharad y wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth ysgrifennu Stori Fer a bu Non yn fuddugol mewn cystadleuaeth cyfansoddi cân.

Llongyfarchwn Mr Elwyn Hughes, Bryn Ogwen, ar gael ei urddo yn aelod o'r Orsedd yn Eisteddfod Llanellwedd.

Cerddorol: Llongyfarchwn y canlynol ar eu llwyddiant mewn arholiad piano yn ddiweddar — Ifan Rowland, Y Ddôl, gradd 1 gyda theilyngdod; a Caryl Owen, Cefn Ffrwd, gradd 5.

Diolch: Dymuna Ceri a Barrie Caulcutt, 17 Heol Eleanor, Caernarfon, ddiolch yn fawr i'w teulu a ffrindiau am yr anrhegion gwerthfawr a'r holl ddymuniadau da

a dderbyniasant ar achlysur hapus eu priodas.

Neuadd Goffa: Mewn cyfarfod o bwyllgor y Neuadd ar nos Fawrth, 31 Awst, penderfynwyd trefnu cyfarfod i agor y Neuadd yn swyddogol ar nos Wener, 24 Medi. Cynhelir Noson Goffi gyda byrddau gwerthu i roi cyfle i bawb weld y Neuadd ar ei gwedd newydd cyn dechrau gweithgareddau'r gaeaf.

Gwahoddir hefyd geisiadau am y swydd o ofalwr am y Neuadd ac fe wahoddir unrhyw un sydd â diddordeb i gysylltu â'r ysgrifenyddes, Mrs Olwen Jones, Stad Eryri, mor fuan ag sydd bosib i drafod amodau'r swydd.

Cydymdeimlad: Ddydd Mercher, 21 Gorffennaf, yn frawychus o sydyn, bu farw Mr Hugh Hughes, Crawia, yn 82 mlwydd oed. Estynnir pob cydymdeimlad i Mrs Hughes a'r teulu yn eu profedigaeth.

Priodas: Ddydd Sadwrn, 3 Gorffennaf, yng Nghapel Cysegr, priodwyd Ceri Evans, merch ieuengaf Mr a Mrs John R. Evans, Blaen Parc â Mr Barrie T. Caulcutt, mab Mrs Eileen Caulcutt a'r diweddar Mr T. Caulcutt, 17 Hyfrydle, Caernarfon. Gweinyddwyd gan y Parchg W. R. Williams a'r organyddes oedd Mrs Menna Williams, Y Felinheli. Y morynion oedd Shân Pollard, efeilles y briodasferch; Einir Evans, nith; Bethan a Beverley Jones, nithoedd; ac Einir Lyn Maggei oedd y forwyn fach.

Mr Vernon Evans, ffrind y priodfab, oedd y gwas, a'r tywyswyr oedd David Evans, Michael Pollard, Geraint Parry, Wyn Jones ac Aled John Evans.

Cynhaliwyd y brecwast priodas yng Ngwesty Fictoria, Llanberis.

Mae'r priodfab yn gweithio yn Swyddfa Nawdd Cymdeithasol yng Nghaernarfon a'r briodferch yng Nghartref Henoed Plas Maesincla,

Caernarfon. Byddant yn cartrefu yn 17 Heol Elinor, Caernarfon.

Diolch arbennig i Mrs Mair Jones, Glan Gors, Mrs Eleanor Jones, 22 Cremlyn, Mrs Edwina Morris, Treflys a Mrs Annwen Hardwidge, Silyn, am bob cymorth ar ddiwrnod y briodas.




DRAENOG

Mae'n rhaid i feirdd y Talwrn gofio rheolau cerdd dafod a'r testunau a'r cerddi a'r sgôr. Ag yntau'n gorfod cofio cymaint, rhaid cydymdeimlo â bardd o Fethel am un eiliad o anghofrwydd. Wedi bod yn y Bedol yn dathlu buddugoliaeth ei dim Glannau Llyfni roedd y bardd. Daeth adref gan dybio cael croeso gan Llew, ei gi ffyddlon. Galwodd arno mewn cynghanedd, ond ni ddaeth ateb. Doedd dim golwg o'r hen gi. Mewn sbel daeth yr awen heibio a chofiodd y bardd iddo fynd a Llew hefo fo tua'r Bedol, a bod y ci druan yn dal yno!

BARRY'S GLASS

- am Ffenestri a Drysau UPVC • Estimates am ddim
- Gwydr a gwydro o bob maint • Ffenestri Gwydr Dwbl
- Gwasanaeth bordio a gwydro 24 awr.



CAMELOT, PENISARWAUN

871144 (Dydd)

871774 (nos)

ERIC JONES
PENISARWAUN
Ffôn: 872421

- ★ Prisiau rhesymol
- ★ Spreio tu mewn a thu allan
- ★ Estimates am ddim

PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

GERDDI GLASCOED

(Ger Capel Glascoed)

PENISARWAUN

I'ch gardd fod ar ei orau galwch heibio neu ffoniwch

870453

Heliwch eich traed am fargen i

SIOP ESGIDIAU GLENS
Stryd Fawr LLANBERIS
Ffôn: 871470



AKA SECURITY SERVICE
Y Dderwen Parc y Wern BETHEL
Ffôn:(0286) 670608



Rhag i hwn alw, galwch chi ni rŵan

- ★ Larwms
- ★ Goleuadau
- ★ Cloeau
- ★ Pob math o waith diogelwch

Cwmni TARIAN Cyf.

Yswiriant Car neu Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni Roi pris i chi.

TARIAN
6 Stryd Bangor, Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE

40 Stryd Fawr PORTHAETHWY
Ffôn:

(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor Ffôn: 870440

Dwy Briodas: Cafwyd dau achlysur arbennig iawn yng Nghapel Rehoboth yn ddiweddar pan fu i ddwy gyfnither briodi o fewn wythnos i'w gilydd — y ddwy yn wyresau i'r diweddar Thomas John Roberts, codwr canu a gŵr mawr ei barch yng Nghapel Rehoboth.

Ar 31 Gorffennaf priodwyd Siân, merch Prydwen a Melvyn Pritchard, Llys Awel (Tŷ Capel) â Colin Sibley o Swydd Caer. Gweinyddwyd gan y Parchg John Pritchard a Gareth Jones wrth yr organ. Dymunwn pob bendith a hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol. Byddant yn cartrefu yn Ceunant, Nant Peris. Dymunant ddiolch i bawb am eu caredigrwydd.

Ar 7 Awst priodwyd Sharon, merch Eirlys a Goronwy Roberts, Llanrug, â Hugh Griffith, Castell, Pentir. Y Parchg John Pritchard oedd yn gweinyddu a Mererid Gwyn Jones wrth yr organ. Dymunwn iddynt hwythau hefyd pob bendith a hapusrwydd yn eu bywyd priodasol. Byddant yn cartrefu yn Rhiwlas. Dymunant hwythau hefyd ddiolch i bawb am eu caredigrwydd.



Sharon a Hugh.

Bedydd: Prawn Sul, 25 Gorffennaf, bedyddiwyd Rhodri, mab Eilian a Gwen Williams, Ton Pentre, ac ŵyr i Arthur a Jennie Williams, Pennant. Y Parchg John Pritchard oedd yn gweinyddu.

Llongyfarchiadau i Llinos Jones, 10 Glanrafon Terrace, ac Alan Pritchard, Llys Awel, ar eu llwyddiant yn eu arholiadau lefel-A.

BETWS GARMON

Diolch: Dymuna Glenys a'r teulu, Tyn Weirglodd, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y galwadau ffôn, ymweliadau a'r cardiau a dderbyniodd yn ystod eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn, sef A. G. Griffith gynt o Caeau Gwynion.

Cronfa Haematoleg Ysbyty Gwynedd: Gwnaed elw ardderchog ddydd lau, 12 Awst, yn y Snowdon Ranger, trwy garedigrwydd Mr a Mrs D. Woods. Byrddau gwerthu a rafflau yn dod a £339 i'r coffrau a £430 rhoddion ariannol yn rhoi cyfanswm o £769 — dechrau da. Mae gweithgareddau eraill ar y gweill. Diolch i bawb am eu haelioni.



Siân a Colin.

Croeso cynnes i Brian a Lola Owen i 8 Nant Ffynnon. Da gweld Brian a'i gŵn o gwmpas y Nant unwaith eto! **Pererindod:** Trefnodd Mrs Margaret Ellis, 5 Nant Ffynnon, ymweliad ag Eglwys Clynog Fawr a chafwyd hanes diddorol yr hen eglwys gan Mr Iorwerth Jones. Wedi gwasanaeth byr roedd pryd o fwyd blasus wedi ei drefnu yng Ngwesty'r Stables. Gwnaed elw o £67 tuag at Gronfa Atgyweirio Eglwys St. Padarn, Llanberis.

Diolch: Dymuna brenhines Sara o Ddeiniolen, sydd yn wyres i Mrs Ann Jones, 2 Nant Ffynnon, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl anrhegion ac arian a dderbyniodd tra yn frenhines Carnifal Deiniolen. **Llongyfarchiadau** i'r frenhines Sara am ddod yn gyntaf yng Ngharnifal Llanberis — oddi wrth Nain Nant.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd DEINIOLEN

Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

CARPEDI GLÂN

Mynnwch driniaeth **STIMVAK**

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 650291
hefyd ail-osod carpedi

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Cymdeithas y Chwirydd: Cyfarfu'r Gymdeithas yn y Ffestri, nos lau, Gorffennaf 1af dan lywyddiaeth Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. Arweiniwyd yn y defosiwn gan Mrs Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian. Y gŵr gwadd am y noson oedd Mr Ifan Wyn Williams, Rhosmeirch. Cafwyd orig ddifyr yn ei gwmni yn olrhain hanes Cymdeithas Edward Llwyd y mae'n aelod ohoni. Mwynhawyd ei adroddiadau o'i ddyddiadur personol am ei deithiau i Ynys Enlli a'r daith yn dilyn Clawdd Offa a wnaeth yn ddiweddar. Rhoddwyd gair o ddiolch iddo gan Mrs Betty Owen, Tros yr Afon a Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc. Darparwyd y te gan Mrs Jennie Roberts a Mrs Verna Jones a diolchwyd iddynt gan Mrs Euronwy Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi'r 2il yng nghwmni Mr David Whiteside Thomas, Llanrug.

Cymdeithas y Beiblau: Daeth aelodau eglwys cyd-enwadol Dosbarth Deiniolen ynghyd ar Fehefin 27ain i Gapel Brynrefail i'w cyfarfodydd blyneddol. Yng nghyfarfod y prynhawn, dan lywyddiaeth Mr Glyn Thomas, Dinorwig, rhoddwyd cyfraniadau graenus gan blant Ysgolion Sul y dosbarth. Cynrychiolwyd Ysgol Sul Brynrefail gan Amy Lambert, Rhian Owen, Ellen Williams, Ruth Owen a Bethan Owen. Llywyddwyd y Gymanfa Ganu yn yr hwyr gan y Gweinidog, y Parchg John Morris. Yr arweinydd gwadd oedd Mr James

Griffiths a chafwyd datganiadau gan Gôr Meibion Dinas Bangor dan ei arweiniad yn ystod y Gymanfa. Cyfeiliwyd i'r côr ac yn y ddwy oedfa gan Miss Lowri P. Roberts, Godre'r Coed.

Ffair Haf: Cynhaliwyd Ffair Haf a Barbeciw dan nawdd Cymdeithas y Chwirydd yn yr Hen Ysgol Fach, nos Wener, Gorffennaf 16eg. Er i'r tywydd droi allan yn siomedig cafwyd cefnogaeth deilwng iawn i'r noson. Agorwyd y Ffair gan Mr Glyn Thomas, Dinorwig, gyda sylwadau diddorol am rai atgofion plentyndod o'r pentref, yr hen Ysgol Ramadeg a harddwch Penllyn gerllaw, a'i werthfawrogiad yn amlwg o ymdrechion cymunedau bychain. Gwnaed elw o £276 i Gymdeithas y Chwirydd ac estynnir diolch i'r nifer dda o chwirydd fu'n gweithio'n frwd tuag at y noson, i'r ysgrifenyddes Mrs Jennie Hughes am y trefnu ac i drigolion y pentref a chyfeillion am eu cefnogaeth.

Cofion: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad buan i Mrs Gwyneth Evans, Tŷ'n Buarth a Mr Dennis Jones, 11 Trem Eilian, sydd wedi treulio cyfnodau yn Ysbyty Gwynedd; ac i Miss A. M. Williams, Llys Arfon sydd dan archwiliad yn Ysbyty Walton, Lerpwl.

Cydymdeimlo: Mae'n cydymdeimlad yn ddwys â Mrs Jean Roberts, Penllyn, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, y ddiweddar Mrs Maggie Jones, Clwt-y-bont.

Geni ♥ Bedyddio ♥ Iŵed ♥ Priodas ♥

✱ Achluseur arbennig? ✱
✱ Anrheg unigryw? ✱
Beth am un o sampleri

PWYTHAU CAIN

✱ Cynllunir pob sampler yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

✱ Hefyd gwniadwaith o bob math gwnedd dillad, newidiadau, ffenni, a.y.y.b.

✱ Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd ♥ Darnau o farddoniaeth

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU - TRWSIO

★ Teledu
★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Eisteddfod Bentref: Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn y Neuadd Gymunedol foethus eleni. Bu'n llwyddiant ysgubol gyda chystadlu brwd o safon uchel o'r oedran meithrin i'r oedolion. Gwerthfawrogwyd yr eitemau ychwanegol, sef cystadleuaeth i offerynwyr chwyth a llinynnol. Diolchir i'r cystadleuwyr am roi'r fath wefr i'r gynulleidfa. Yn ôl y beirniad Llên ac Adrodd, Mr John Huw Hughes, Llanberis, mae lle gennym i ymfalchïo yn ein plant a'n pobol ifainc. Rhyfeddai at y fath fwrlwm o fewn pentref bychan ym mro'r Eco.

Roedd ef a Mr Edward Morus Jones, a'r Llywydd, Mrs Alice Eileen Williams, wedi mwynhau oriau o gystadlu brwd o 5.30 p.m. hyd 1.00 a.m. Ymfalchiwn a llongyfarchwn y cystadleuwyr, yr hyfforddwyr ynghyd â chefnogaeth gref staff yr Ysgol yn yr adran lenyddol a thechnolegol. Llongyfarchiadau i Nia Griffith a Huw Tegid am ennill prif wobrwon llenyddol yr Eisteddfod i rai dan 12 oed a 18 oed. Dymunir diolch i **bawb** a gyfranodd mewn unrhyw fodd i wneud yr Ŵyl yn un i'w chofio.



Rhai o'r plant a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod.

Wythnos Garnifal: Wedi seibiant byr ar ôl yr Eisteddfod parhau fu hanes y bwrlwm gydag wythnos o weithgareddau amrywiol. Gydag Arwel Jones yn arwain, roedd yr Eglwys dan ei sang ar y nos Sul a chafwyd eitemau o safon uchel gan blant yr ysgol a'r ysgol feithrin. Nos Fawrth, trefnwyd noson i blant yr Ysgol — noson o bêl-droed a rownderi. Nos Wener mwynhaodd y plant, o'r meithrin i'r iau, firi a hwyl a dawnsio yn y Disgo yn y Neuadd Gymunedol.

Sadwrn y Carnifal bu'n glawio'n ddi-dor yn y bore, ond erbyn 1.30 p.m. ciliodd y glaw a daeth yr haul i wenu ar yr holl gystadleuwyr a ddaeth i ymgynull yn y Cae Chwarae am 2.00 o'r gloch. Beirniadwyd y cystadlaethau eleni ar y llwyfan hwylus yn y Neuadd Gymunedol. Y beirniad oedd Mr Hywel Jones, Maer Arfon a Mrs Gregson. Bu'n Garnifal llwyddiannus dros ben.

Dyma'r canlyniadau — **Addurno**

het: 1, Anest; 2, Melanie; 3, Karen. **Addurno pram:** 1, Melanie; 2, Llŷr. **Unrhyw bâr dan 12:** 1, Mathew a Jenny; 2, Jason a Rebecca; 3, Rhys ac Osian. **Unrhyw bâr dros 12:** 1, Gwenllian a Christopher. **Cyn oed meithrin:** 1, Andrew; 2, Dylan; 3, Gethin. **Oes Ysgol Feithrin:** 1, Gavin; cydradd 2, Drew a Campbell; cydradd 3, Iwan a Sarah. **Adran Babannod:** 1, Haydn; 2, Jodie; 3, Cenin. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Nicola; 2, Charlotte; 3, Erin. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Elgan; cydradd 2, Dion a Christopher. **Disgyblion uwchradd hyd at 15:** 1, Gwenllian. **Dros 15:** 1, Alwena. **Grŵp:** 1, Licyrus Olsorts; 2, Teithwyr yr Oes Newydd; 3, Chief Cook and Bottle Washer. **Enillydd Tlws y Carnifal:** Gavin Jones.

Diolch i'r cystadleuwyr, y beirniaid, yr arweinyddion trwy gydol yr wythnos, Ysgol Gymuned Penisarwaun, Ysgol Feithrin Penisarwaun, Eglwys Santes Helen, y Pwyllgor a phawb a drefnodd holl weithgareddau'r wythnos.



Eifion Harding a thîm pêl-droed buddugol wythnos y Carnifal.

Cronfa Haematoleg a Chymorth Cancr Gwynedd: Cynhaliwyd Noson Goffi yn yr Ysgol Gymunedol ar nos Iau, 8 Gorffennaf. Cafwyd cefnogaeth dda er fod y tywydd yn arw. Daeth Sister Manon Morewood, Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, i siarad am y Gronfa. Enillwyd y raffl oedd — 1, Catrin, Manon ac Elin; 2, Meira Griffith; 3, Louise Jones; 4, Mathew Philips. Gwnaed elw o £146 — swm sylweddol i gychwyn y Gronfa yma ym Mhenisarwaun.

Mae £660 eisoes wedi'i gaslu mewn rhoddion ariannol. Diolchir i bawb am eu haelioni. Os dymuna unrhyw un gyfrannu at y Gronfa cysyllter ag unrhyw aelod o'r pwyllgor neu'r trysorydd — Ann Paterson, 1 Bryntirion (872405).

Trip yr Ysgolion Sul i Blackpool: Dymuna'r rhai fu ar y trip llwyddiannus hwn i Blackpool ddiolch i Mrs Elizabeth Jones am wneud y trefniadau ac i Mr Huskinson am ei rodd ariannol i bob plentyn a ddaeth ar y trip.

Priodas: Pob bendith a hapusrwydd i Yvonne (Gors) a Craig ar eu priodas yn Cypress Gardens, Orlando, yn ddiweddar. Maent yn ymgartrefu yn Rochdale.

Genedigaeth: Croeso cynnes i Alis Haf, merch fach Amranwen a Graham, Gwyddfor. Bydd Lois Angharad yn falch iawn o gwmni ei chwaer fach newydd. Pob bendith i chwi fel teulu.

Gwellhad: Dymunir gwellhad buan i Mrs Alice Thomas, 10 Tai Arthur, wedi triniaeth i'w phen-glin yn Ysbyty Gwynedd. Anfonir cofion a dymuniadau da am wellhad buan i bawb sy'n sâl yn y pentref. Dymuna Mrs Alice Thomas ddiolch am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau.

18 ac 21 oed: Llongyfarchiadau a phob bendith i Kenneth Richardson a Ceirion Williams, Careb, ar achlysur dathlu eu pen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Pob dymuniad da hefyd i Nathan Eagles ac Eurgain Haf ar achlysur eu pen-blwydd hwythau yn 21ain.

Profedigaeth: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mr Robert Lloyd Griffiths a'r teulu, Groeslon Isaf, o golli chwaer, Magwen Lloyd Roberts o Dre-garth. Dymuna'r teulu ddiolch yn ddiffuant am y llu cardiau a phob arwydd o gydymdeimlad yn eu colled lem.

Sioeau: Ymhyfrydir yn llwyddiant ysgubol Deiniol Dewi, tarw du Cymreig Michael Jones, Perthi. Llongyfarchiadau iddo am gipio'r llw gwobrau yn yr amrywiol sioeau, yn

arbennig felly yn y Sioe Fawr yn Llanellwedd. Llongyfarchiadau hefyd i Dilwyn Green gyda'i ieir arbennig; ac fe ddaeth llwyddiant hefyd i Eifion Harding hefo'i ddefaid. Ie, pentref amrywiol ei ddoniau yw hwn — boed ddyn neu anifail!

Cyfeillion yr Ysgol: Bu'r noson Sêl Cist Car yn llwyddiannus tu hwnt. Daeth nifer helaeth o geir i fuarth yr Ysgol ar y noson heulog a chynnes a gwnaed elw o dros £200. Diolchir i'r gwerthwyr, prynwyr a'r rhai fu wrth y stondinau ac yn y gegin. Nid dyma'r Sêl Cist Car olaf mae'n siŵr! **Diolchiadau:** Dymuna Kenneth Richardson ddiolch yn ddiffuant i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ac ar ei llwyddiant yn yr arholiadau lefel-A. Pob hwyl yn Aberystwyth Ken.

Yn yr un modd dymuna Eurgain Haf ddiolch o waelod calon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion ar achlysur ei phen-blwydd yn 21ain, ac ar ddathliad ei graddio yn Aberystwyth. Pob dymuniad da Eurgain gyda'r cwrs M.A. yn Aberystwyth.

Y mae Ann a Dafydd Ifans yn dra diolchgar i'r teulu, cymdogion a llu o ffrindiau am y dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Arian yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

'Nid Byd, Byd Heb Wybodaeth': Blwyddyn o lwyr ymfalchïo yn ein pobl ifainc yw hi eto eleni. Daeth llwyddiant mawr i ran nifer o ddisgyblion yn y pentref. Llongyfarchiadau mawr i'r rhai fu'n sefyll arholiadau lefel-A a TGAU. Pob llwyddiant i Dyfed Jones yn y Coleg Normal ac i Kenneth Richardson ym Mhrifysgol Aberystwyth. I'r rhai sydd ar gychwyn cwrs lefel-A gobeithio y gwnewch fwynhau y ddwy flynedd o weithio caled sydd o'ch blaen. Pob hwyl i Llŷr Tegai yng Ngholeg Glynllifon.

Ymhyfrydir yn llwyddiant nifer o fyfyrwyr o'r pentref. Estynnir ein llongyfarchiadau i Gwenllian, Sioned, Gethin, Emyr, Nathan ac Eurgain Haf.

Yn sicr ffrwyth y llwyddiant yw cefnogaeth a gwerthfawrogiad gan rieni gofalus, athrawon ymroddgar yr ysgol gynradd, arweiniad yr Ysgol Sul, gweithgareddau'r Urdd a chystadlu blynyddol yr eisteddfod bentref, yna dylanwad mawr athrawon Ysgol Brynrefail a'r darlithwyr yn y gwahanol golegau. Eich llwyddiant chwi yw eu llwyddiant hwythau hefyd. Y mae'r



ANTUR WAUNFAWR

SIOP GREFFTAU

CAFFI

CANOLFAN GARDD

ANTUR WAUNFAWR

Ar agor bob dydd Sadwrn o 10 a.m. — 3 p.m.
o Fai 1af

Galwch i weld ein cynnyrch arbennig

bobl ifainc hyn yn gwerthfawrogi ac yn diolch yn ddiffuant.

Un sydd ar gychwyn ei swydd fel cyfreithwraig ym Manceinion yw Sandra Jones, Waun. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Colled Iem: Fore Mercher, 1 Medi brawychwyd y pentref a'r ardal gyda'r newyddion trist am ddamwain aneuol Owen Turner, Tyddyn Difyr, Waen, ac yntau ond 16 oed. Dim ond ychydig ddyddiau ynghynt roedd pawb a'i adnabu yn ymfalchïo yn ei lwyddiant yn yr arholiadau TGAU. Deillir mai yr ei ffordd i'r ysgol uwchradd yr oedd i drafod pynciau'r chweched dosbarth.

Bachgen tawel, cwrtais a disglair iawn ydoedd. Atgofion annwyl iawn a erys amdano gan ei deulu, athrawon, frindiau a'i gyfoedion.

Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â'r teulu, Julia a Robert Turner a'r plant Rhiannon, Lawrence, Andrew, Gwenllian a Christopher a'r teulu oll yn eu colled fawr.

Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant misoedd Gorffennaf ac Awst yn Sycharth. Dyma'r enillwyr — **Gorffennaf:** 1, R. Probert, Waun; 2, T. W. Griffith, Bryntirion; 3, R. Griffiths, Groeslon Isaf. **Awst:** 1, Alice Thomas, Waun; 2, A. Paterson, Bryntirion; 3, Wyn Griffiths, Tai Arthur.

Dymuna'r athrawon bob bendith a llwyddiant i'r rhai sy'n cychwyn yn yr amrywiol ysgolion uwchradd a chroesewir y newydd-ddyfodiad gan obeithio y byddant hwythau yn setlo yn ddiymdroi.



Y tîm rownderi buddugol yn y gystadleuaeth a gafwyd wythnos y Carnifal.



Huw Tegid, enillydd un o brif wobrau llenyddol Eisteddfod Penisarwaun.



Gavin Jones, enillydd Tlws y Carnifal.

CYNGOR CYMDEITHAS LLANDDEINIOLEN

Bu'r Cyngor yn trafod 'plismona'r ardal' gyda'r Arolygydd Cemlyn Williams yn eu cyfarfod diwethaf. Amlygwyd niifer o gwynion ynglŷn â'r gwasanaeth yn gyffredinol, ac yn enwedig am y ffaith na ellid cael ateb ar y ffôn o Lanberis bob awr o'r dydd. Hefyd cafwyd cwynion am na fedrid trafod problemau yn Gymraeg ar bob achlysur, a hefyd am nad oedd plismyn yn 'cerdded' hyd strydoedd pentrefi'r ardal mor aml ag y dylent.

Barn gyffredinol y Cyngor oedd fod y safon o blismona ardal wedi dirywio. Gofynnwyd i'r heddlu gadw golwg ar y gysgodfan bws yn Neiniolen oherwydd y camddefnydd a wneid o'r adeilad. Oherwydd y fandaleiddio a'r camddefnydd a

wneir o'r cysgodfannau yn gyffredinol penderfynodd y Cyngor beidio â gwario mwy o arian y trethdalwyr ar adeiladau o'r fath ar hyn o bryd.

Ni fydd y Cyngor yn ystyried unrhyw gais am roddion oni dderbynir adroddiad ariannol llawn a manwl gyda'r cais. Rhaid anfon pob cais i'r clerc — Selwyn Griffith, Crud-yr-awen, Penisarwaun, cyn Hydref 8fed.

AR WERTH FORD FIESTA

Lllw glas,
Rhif Cofrestru 'Y'
£600
CARROG
WAUN, PENISARWAUN
Ffôn: 870716

CANOLFAN GYMUNEDOL AML-BWRPAS LLANRUG

Mae Cyngor Cymuned Llanrug wedi cyhoeddi datganiad sy'n egluro'r datblygiadau diweddaraf yn yr ymdrech i sicrhau Canolfan Gymunedol newydd ar gyfer y pentref. Bwriedir cael o fewn y Ganolfan:

- ★ Capel ar gyfer gwasanaethau crefyddol;
- ★ Ystafelloedd ar gyfer defnydd Ysgol Sul a phwyllgorau, ayyb;
- ★ Ystafell snwcer ag ynddi ddau fwrdd maint llawn a bwrdd pŵl;
- ★ Neuadd fechan ar gyfer cyngherddau a gweithgareddau eraill;
- ★ Cyntedd, derbynfa, toiledau a storfeydd;
- ★ Cegin ar gyfer darparu prydau ysgafn.

Erbyn hyn penderfynwyd lleoli'r Ganolfan ar ran o safle Ysgol Brynrefail. Y mae'r Cyngor Sir wedi dod yn rhan o'r fenter ac yn awyddus i'r Ganolfan fod hefyd yn gartref parhaol i'r Clwb Ieuenctid lleol.

Mae'r gwahanol fudiadau sy'n rhan o'r cynllun wedi cyflwyno cais am grant o'r Swyddfa Gymreig o dan y Cynllun Datblygu Strategol, a gobeithir derbyn dyfarniad ar y cais yn ystod mis Rhagfyr eleni.

DRAENOG



Mi faswn i wrth fy modd cael gwybod sut groeso gafodd ysgrifennydd clwb nofio o Loegr pan awgrymodd y dylai trefnydd Ras y Wyddfa newid dyddiad y 'ras fach' honno eleni gan ei bod i'w chynnal ar yr un dyddiad â'r ras nofio'r clwb o Loegr ar Lyn Padarn. Mi fuost yn 'rasol', gobeithio Ken!

W.J.GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi




Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
dewch at

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677842



J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Diolch: Dymuna Mr Derek Williams, Bron Eilian, ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a ddangoswyd iddo tra y bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch i'r meddygon a'r gweinyddesau am eu gofal tyner ac i bobl yr ardal am eu dymuniadau da. Bellach mae'n dda gallu adrodd bod Mr Williams wedi dychwelyd gartref ac yn gwella.

Dymuniadau da i Miss Lizzie Thomas, Llidiart y Clo, sydd yn preswyllo erbyn hyn yn Plas Pengwaith, Llanberis. Pob dymuniadau da iddi i'r dyfodol.

Coronation Street: Os ydych yn wylwyr cyson o'r rhaglen hon yna gwylwch allan am ymddangosiad byr gan un o fechgyn a fagwyd yn Ninorwig ar un o'r rhaglenni yn ystod yr wythnosau nesaf. Os gwylwch yn ofalus fe ddylech weld Adrian Jones, neu Eifion Pennant i chi a fi, gynt o Bron Myfyr, yn taro mewn i storfa 'Betterbuys'. Mae Eifion wedi gwneud enw iddo i hun fel cyflwynydd rhaglenni ysgafn ar wahanol orsafoedd radio dros y blynyddoedd ac ef bellach yw un o brif gyflwynwyr rhaglenni ysgafn ar Radio Marcher.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Mr Robert Jones, neu 'Robin Fawr' fel y'i gelwid, o Frynsiencyn, Môn, a fu farw ar 8 Awst. Roedd Mr Jones yn meddwl y byd o'r Eco ac fe fyddai yn sicrhau ei fod yn cael copi yn rheolaidd oherwydd cymaint oedd ei ddiddordeb yn yr hyn oedd yn digwydd yn yr ardal.

Eglwys St. Mair: Uchafbwynt mis Medi fydd Gwasanaeth Sefydlu y Parchg Idris Thomas, o Rheithordy Trefor, yn Ddeon Gwlad Arfon mewn gwasanaeth arbennig yn Eglwys St. Siôr, Trefor, ar nos Sul, 26 Medi. Dymuna aelodau Eglwys St. Mair ei longyfarch yn fawr ar ei apwyntiad a phob dymuniad da a llwyddiant iddo yn ei swydd newydd.

Er fod problemau gyda chyflwr adeilad yr Eglwys mae'n dda gallu adrodd fod cynlluniau ar waith yn ystod yr wythnosau nesaf i atgyweirio ac yna fe fydd yn fodd i gynnal yr Achos dros fisoedd y gaeaf. Diolchir i'r criw ffyddlon sydd yn mynychu'r gwasanaethau o Sul i Sul, ac i Mr Robin Jones am dorri'r gwair yn ystod yr haf. Yn ystod mis Medi fe roddir blodau'r allor gan Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir, ar Suliau

Medi 5, 12, 19 a gan Mrs Margaret Jones, 5 Bro Elidir ar y Sul, Hydref 3. Ni chynhelir gwasanaeth ar y Sul 26 Medi gan y disgwylir i bawb fynychu Gwasanaeth Sefydlu'r Deon Gwlad yn Nhrefor. Cyfrifoldeb Mrs Margaret Jones, 5 Bro Elidir, fydd glanhau'r Eglwys yn ystod misoedd Medi a Hydref.

Rhuban Glas i Rhodri: Llongyfarchiadau mawr i wŷr Mrs Alice Thomas a'r diweddar Hugh Thomas, 1 Bro Elidir, Dinorwig, sef Rhodri Elidir Elidir Tomos, Y Rheithordy, Trefor, ar ennill y Rhuban Glas offerynnol 12-15 oed yn Eisteddfod Genedlaethol De Powys eleni. Enillodd Rhodri, sy'n 14 oed, yr Unawd Pres Offerynnol 12-15 oed ar y bore Mawrth yn gyntaf ac yna yn y prynhawn y Rhuban Glas offerynnol. Disgrifwydei berfformiad gan y beirniad fel un cerddorol dros ben. Dyma yn sicr binacl ei yrfa cystadleuol hyd yma. Mae Rhodri wedi bod yn fuddugol yn Eisteddfod yr Urdd o dan 12 a 15 oed, yn fuddugol ddwywaith o dan 15 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac wedi ennill llw o wobrau ar y cornet. Mae'n ddisgybl yn Ysgol Glan-y-môr, Pwllheli, yn aelod blaenllaw o Seindorf Trefor (yn aelod ers pan yn 9 oed) a chaiff ei hyfforddi gan Mr Geraint Jones, arweinydd Seindorf Trefor a phrifathro Ysgol yr Eifl, Trefor. Dymunir yn dda i Rhodri i'r dyfodol.



Rhodri a'r Rhuban Glas Offerynnol.

Marwolaeth: Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mr O. R. Williams, gynt o 2 Bro Elidir, ond a symudodd gyda'i briod i fyw i 29 Rhydfadog, Deiniolen, tua saith mlynedd yn ôl. Cofir yn dda amdano fel aelod ffyddlon a gweithgar iawn o Gapel Dinorwig. Yn wir bu'n flaenor am 52 o flynyddoedd. Ef hefyd oedd gohebydd pentref cyntaf yr Eco yn Ninorwig ac fe wnaeth y gwaith am flynyddoedd lawer. Roedd yn ddarllenwr mawr, yn hoff o arddio ac yn ymgomiwr difyr. Bydd bwlch mawr ar ei ôl yn ardal ac yn arbennig felly i'w deulu. Cydymdeimlwn yn fawr a'i briod, Mrs Nellie Williams, ei fab Irfon a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Bu farw Mr Williams ar 21 Awst ac fe gynhaliwyd yr angladd yn yr Amlogsfaf ym Mangor ar 26 Awst. Gweler teyrnged Mrs Katie Lloyd Hughes ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Ysgol Nos: Cofiwch bod dosbarth nos Addysg y Gweithwyr (WEA) gyda Mr Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug yn darlithio, yn cael eu cynnal yn y Ganolfan bob nos Fawrth o 7 Medi ymlaen am y pum wythnos nesaf ymlaen am 7 o'r gloch. Beth am ymuno â'r dosbarthiadau — ni chewch eich siomi.

Hwyl Haf '93: Er yr holl dywydd gwlyb a gawsom yn ystod yr haf eleni fe ddaeth yr haul i dywynnu ar yr Hwyl Haf yn yr Allt Ddu, ar brynawn Sadwrn, 3 Gorffennaf. Fel arfer cawsom gefnogaeth dda ac fe wnaed elw ariannol o £115. Dyma ganlyniadau y cystadlaethau gwisg ffansi — Dan 3 oed: 1, Elin Ann Morris; 2, Catrin Griffith; 3, Sara Haywood. Dan 5 oed: 1, Caroline Anderson; 2, Rhian Wyn Morris, Emma Haywood; 3, Rachel Lee, Nicky Hill. Dan 8 oed: 1, Ben Boothroyd; 2, Ceri Bryn Morris; 3, Lowri Wyn Higgins, Joe Hill. Dan 10 oed: 1, Tom Lea; 2, Zoe Anderson; 3, Dafydd Morris, Helen Corless. Dan 12 oed: 1, Jennifer Ann Corless.

Diolchir i bobl Dinorwig a'r pentrefi cyfagos am eu cefnogaeth; Cyngor Bwrdeistref Arfon am gael defnyddio'r cae; y Parchg John Pritchard, Llanberis, am feirniadu'r gwisg ffansi; teulu Fron Heulog am ddefnyddio'r garafán; Dafydd Morris, Cefn Coch, am y llwyfan; Ambiwllans Sant Ioan; pawb a gyfrannodd at wobrau'r raffl; Menter Fachwen; Gwerin y Coed; Dŵr Cymru; i unigolion am eu rhoddion ariannol, teisennau, llysiau, ac ati ac i bawb am eu presenoldeb a'u cefnogaeth yn ystod y pawns.

RHAI SYLWADAU AR HWYL HAF DINORWIG

Wedi'r bore niwlog a digon siomedig
Fe gliriodd yr awyr at y pawns yn Ninorwig
Aeth Alun a minnau yno i'r Hwyl Haf
Pawns Sadwrn y trydydd o Orffennaf.

Roedd gennym amser cyn i'r hwyl ddechrau
Aethom draw i olwg y brynau
Cael ein gwefreiddio gan harddwch y grug —
Gogoniant naturiol heb arlliw o ffug.

Trol'n ôl am faes y campau
A'r cudyll yn hofran uwch ein pen
Y geifr gwylltton a'r wyn gwyn a du
Yn pori'r llethrau uwchben yr Allt Ddu.

Roedd nifer sylweddol wedi dod i'r Wyl
Plant ac oedolion yn barod am hwyl
Y castell gwynt a chicio'r bêl-droed
Ras cario dŵr dan rwystrau — i bob oed.

Cystadleuaeth gwisg ffansi i blant, a'r rhai hŷn,
A'r gwaith beirniadu ar ysgwyddau un dyn —
Y Parchedig John Pritchard, Llanberis —
Canmolwn y pwyllgor am doethineb eu dewis.

Derbyniol oedd y cŵn-poeth a'r hufen lla,
A'r bara brith a'r te yn arbennig o dda;
Y cydweithio rhwng Cymro a Sais i'w ganmol
Hir y parhao — dyma agwedd dderbyniol.

Yn swm lleisiau'r plant a hwyl yr Allt Ddu
Yn ôl im cof daeth swm lleisiau cymdeithas a fu:
Caniad y corn, chwiban yr injan fach, a'r saethu,
Swm cowjo a phileru, gorddio, yr hollti a'r naddu,
Y byrddau llifio, llwytho a thipio, a'r galw'n yr offis dalu,
Curiad y gof o'r efail, y gelltydd, y trafod o'r caban, yr hwyl a'r cecru.

Cofio chwyth olaf y corn yn chwedeg naw
Swm traed byddin yr hoellon mawr i'n clyw ni ddaw;
Egwyl fer yng Ngorffennaf yw Gwyl Haf Dinorwig —
Ond tawelwch parhao yw'r chwarel gaeedig.

H.J.

Bistro
43 - 45
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871278



CABS LLANRUG



C'fon 675951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

Eisteddfod: Os oes gennych ddiddordeb mewn cynorthwyo gyda'r gwaith o drefnu yr Eisteddfod Bentref, sydd i'w chynnal eto eleni ym mis Rhagfyr, yna dewch draw i'r cyfarfod a gynhelir yn y Ganolfan ar nos Iau, 16 Medi, am 7 o'r gloch.

Gwasanaeth Bysiau: Bellach fe ddylai pawb fod wedi derbyn y wybodaeth ynglŷn â'r trefniant y mae'r Cynghor Sir wedi ei wneud gyda chwmnïau Crosville Cymru a Williams, Deiniolen. Ffrwyth y trafodaethau a gynhaliwyd rhwng y Cynghorydd P. Larsen, y Cynghorydd Glyn Tomos â'r cwmnïau bysbus yw'r trefniadau newydd hyn a gobeithir y bydd y drefn newydd yn plesio ac yn mynd peth o'r ffordd i ateb anghenion y teithwyr. Os bydd unrhyw anhawster ynglŷn â'r drefn newydd yna cysylltwch â'r cynghorwyr lleol.

Cymdeithas y Beiblau: Mewn cyfarfod undebol o'r Gymdeithas, a gynhaliwyd ar 27 Mehefin yng Nghapel Brynrefail, cafwyd eitemau gan elodau Ysgolion Sul Capel Dinorwig a Chapel Sardis. Diolch i'r plant a'u hyfforddwyr. Arweinwyd y gwasanaeth gan Mr Glyn Tomos.

Cymdeithas Lenyddol Undebol: Fel rhaghybysiad — fe fydd tymor newydd y Gymdeithas yn agor gyda chyngerdd yng nghwmni Parti Meibion Dyffryn Peris ar nos Iau, 21 Hydref, am 7 o'r gloch yn y Ganolfan. Bydd mwy o fanylion am y noson yn y rhifyn nesaf o'r Eco. Swyddogion y Gymdeithas am eleni yw — Llywydd: Mr David John Thomas; Ysgrifennydd: Mrs Hannah Roberts; Trysorydd: Miss Marian Jones.

Cydymdeimlad: Brawychwyd trigolion yr ardal o glywed am farwolaeth sydyn Mrs Beryl Bryn Williams, priod y diweddar Barchg Ieuan Bryn Williams, Cyffylliog. Fel cyn-weinidog yn yr ardal cafwyd blynyddoedd o gwmni a gwasanaeth y ddau. Roedd Mrs Williams yn meddu ar ddawn gerddorol arbennig a thrwy ei gwasanaeth ymroddgar cafodd plant ac ieuencid yr ardal fanteision dirifedi. Cofir amdani fel person hawddgar gyda'i gwên parod a'i hagosatrwydd dihafal. Cydymdeimlwn yn ddiffuant a'r plant, Iwan Prys, Angharad a Bethan a'r teulu oll yn eu trallod.

Diolch: Dymuna Iwan, Angharad a Bethan gydnabod yn ddiolchgar pob arwydd o gydymdeimlad a estynwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam annwyl, sef Mrs Beryl Bryn Williams, gweddwy y diweddar Barchedig Ieuan Bryn Williams, gynt o Bron Myfyr, Dinorwig.

Sustem Carthffosiaeth: Yn ôl yr ohebiaeth a dderbyniodd y

Cynghorydd Glyn Tomos oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Arfon yn ddiweddar, bydd y gwaith o adnewydd y sustem carthffosiaeth gyferbyn â Maes Eilian yn mynd rhagddo yn y dyfodol agos. Mae hyn yn newyddion da gan bod angen gwneud y gwaith ers cryn amser.

Teyrnged i'r diweddar Mr O. R. Williams, gynt o 2 Bro Elidir, gan Mrs Katie Lloyd Hughes: Ar 21 Awst, ar ôl cystudd blin, bu farw Mr O. R. Williams. Fe gyfoethogodd O.R. fywydau llawer, a does gennym ni yn ein tristwch o'i golli ond lle i ddiolch i'r Arglwydd am ei fenthg tra cawsom ni.

Treuliodd ei oes yn ymdrin â'r 'pethe'. Bu'n flaenor gweithgar a chydwybodol am hanner can mlynedd. Nid oedd pall ar ei ffyddlondeb a'i ofal am yr Achos yn ei holl agweddau ac fe gadwodd ei ddiddordeb hyd yn ddiweddar iawn. Bu'n athro Ysgol Sul am nifer o flynyddoedd.

Dangosodd gariad a gofal mawr i'w deulu. Dyn ei gartref ydoedd ac fe fu'n ffortunos iawn yn ei gymar gan iddi hithau ei gefnogi a'i gynorthwyo gydol y blynyddoedd.

Dangosodd gariad mawr at ei ardal. Cyfrannodd yn helaeth i bob cymdeithas. Gan ei fod yn ŵr diwylliedig gallai drafod unrhyw bwn ac fe fyddai ei farn bob amser yn un pendant a di-droi'n-ôl. Gan ei fod yn ddarllenwr mawr roedd ganddo lawer i'w gyfrannu. Bu'n ymwelydd cyson â chartrefi aelodau o bob enwad, ac un o nodweddion amlycaf ei grefydd oedd ei barodrwydd i gynnig ei wasanaeth mewn dydd o drallod.

Dechreuodd weithio yn y chwarel pan oedd yn bedair ar ddeg oed a bu yno am gyfnod cyn ennill ysgoloriaeth i fynychu Coleg Harlech. Manteisiodd yn fawr ar y cyfle hwn er mwyn lledu ei orwelion. Cyn iddo ymadael am y Coleg fe addawyd iddo ddychwelyd yn y chwarel wedi iddo gwblhau ei gwrs. Wedi iddo ddychwelyd o'r Coleg cafodd waith Swyddog (Stiward) ond nid amharodd hynny ddim ar ei berthynas â'i gydweithwyr ac fe fwynhai y gymdeithas ddiddan, glôs, a fodolai yn y chwarel. Roedd yn llawn hiwmor a chawsom enghraifft o hynny yn ei ddewisiad o straeon yn ei lyfr *Gwgenaid o Straeon*.

Diolchwn am gymeriadau fel O.R. oedd yn fodlon rhoi o'u hamser i bethau gorau bywyd. Heddych i'w lwch.

Diolch: Dymuna teulu y diweddar O. R. Williams (Dinorwig gynt) ddiolch o galon i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am y nifer fawr o gardiau, llythyrau, rhoddion a chymwynasau lu a dderbyniwyd.

Diolch i'r Parchedig Michael Thomas ac Alan Wyn Roberts am eu cyfraniad arbennig i'r gwasanaeth ac i'w gyd-flaenoriaid, Mr John Peris Roberts a David Lloyd Hughes.

Diolchir hefyd i staff Cartref Nyrsio Penisarwaun am eu gofal caredig ohono dros y blynyddoedd olaf.

Rhanwyn y rhoddion ariannol er cof rhwng Capel Dinorwig a chronfeydd afiechydon Parkinson a Chlefyd Siwgr.

Dod Adre'n Ôl: Wedi iddynt adael Dinorwig tua thair mlynedd ar hugain yn ôl fe ddychwelodd Harry ac Elisabeth, gynt o Bryn Sardis, i'w bro enedigol am fis o wyliau . . .

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi: Bydd hogi arfau yn cymryd lle bellach ar gyfer y 'Steddffod sydd i'w chynnal ar nos Wener a'r Sadwrn, 29 a 30 Hydref.

Mae'r pwyllgor yn edrych ymlaen am gefnogaeth frwd y pentrefwyr. Gwnewch nodyn arbennig o'r dyddiadau a chofiwch droi i mewn. **Y Ganolfan:** Mae amryw o fudiadau'r pentref eisoes wedi neilltuo nosweithiau yn y Ganolfan ar gyfer gweithgareddau'r gaeaf. Os nad ydych wedi gwneud trefniant hyd yn hyn anfonwch air buan at yr Ysgrifennydd Llogi yn 4 Tai Caradog. Cofiwch mai'r cyntaf i'r felin . . .!

Clwb Elidir: Bu cyfarfod ar 22 Mehefin o dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Mwynhawyd y prynhawn gyda Mrs Megan Morris, Mrs J. Eirlys Williams, Mrs Beti W. Davies a Mrs Glenys Williams yn ein difyr. Gwesteion y te oedd Mrs Aileen M. Jones, Mrs Janet Bingham a Miss Eileen M. Williams. Rhoddwyd y raffl gan Miss Eileen Williams a'r enillydd oedd Mrs Jane C. Hughes. Ar 24 Mehefin aeth y Clwb am eu trip blynyddol i Landudno a chafwyd diwrnod braf a phawb wedi

mwynhau eu hunain. Carem ddiolch i Mr a Mrs Clarke, Swyddfa'r Post, a Mrs Pam Hughes, VG Stores, am eu haelioni tuag atom ar y diwrnod ac hefyd i Mrs Doris Owen am ei rhodd anrhydeddus o £10 tuag at y Clwb. Diolch yn fawr iawn. Bydd y cyfarfod nesaf ar y 7fed o Fedi ac estynnir croeso i aelodau newydd i ymuno â ni.

Merched y Wawr: Bydd y tymor newydd yn agor ar nos Lun, Medi 20fed am 7 o'r gloch yn y Caban.

Y wraig wadd fydd Mrs Nia Elis Williams, Llanllechid (Uwch Swyddog Prawf yng Ngwynedd).

Croeso cynnes i aelodau hen a newydd i ymuno.

Diolch: Dymuna Mrs Dilys Pritchard ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar gyrraedd ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed. Diolch i bawb.

Dymuna Robin a Violet, 44 Rhydfadog, ddiolch i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu merch fach Maria Lloyd Morris.

CROESO'N ÔL



Harri ac Elizabeth Roberts yn ystod eu hymwelid â'r ardal.

Syndod pleserus oedd codi'r ffôn ar bnawn Sul yng Ngorffennaf a chlywed llais Elizabeth. Roedd hi a Harry wedi cyrraedd Llanberis y bore hwnnw — yr holl ffordd o Awstralia.

Tair mlynedd ar hugain yn ôl y gadawodd y ddau, gyda'u plant Gwyneth ac Euros, Ddinorwig i gartrefu yn Ermington, ger Sydney. Gwelsom y plant ar ymweliadau cyn hyn ond dyma'r tro cyntaf i ni gael croesawu Harry ac Elizabeth Lewis (Bryn Sardis gynt) yn ôl i'r ardal. Anodd credu iddynt fod i ffwrdd cyhyd wrth wrando arnynt yn sgwrsio gan mor loyw yw'r iaith Gymraeg ar eu gwefusau.

Daeth cyfle i'w teuluoedd gyfarfod â'r ddau gan i Goronwy a Heulwen Lewis, eu lletywyr, drefnu cinio yng Ngwesty Dolbadarn ar eu cyfer. Tybiai Harry ac Elizabeth mai cinio i bedwar oedd wedi'i drefnu a chawsant gryn sioc o weld tua hanner cant o'r teulu yn eu haros yn y gwesty.

Mrs Mary Vaughan Jones,

Waunfawr, a fu'n aros gyda hwy yn Awstralia, a estynnodd y croeso swyddogol iddynt a Chôr Meibion Dyffryn Peris oedd yno i'w diddanu.

Clywyd llais Elizabeth ar y radio yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Llanelwedd pan fu'n sgwrsio â Hywel Gwynfryn. Daeth y ddau hefyd i oedfa yng Nghapel Sardis lle'r arferent fod yn aelodau ffyddlon.

Gobeithiwn y bydd gweddill eu gwyliau yn ddifyr a hapus, a hynny yn codi awydd arnynt i beidio ag oedi cyhyd eto cyn dod drosodd eto. Taith hwylus yn ôl iddynt! *Ellen Wyn Jones*

DRAENOG

Mae un o flaenoriaid parchus newydd Deiniolen yn amlwg yn awyddus i glosio at ei weinidog. Mor awyddus nes iddo fagio'i gar yn erbyn car y gweinidog yn union wedi'r oedfa ar fore Sul yn ddiweddar.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

COF GWAED gan Y Gwalch

Rhuodd y moto beic i fyny i fuarth y ffarm a sefyll ger y ddôr. Eisteddodd yr hogyn arno am funud gan dynnu ei fenyg. Yna daeth gwraig mewn brat glân i ddrws y tŷ a gwenodd.

'Tybad a gaf i adael y beic tra byddaf yn y Steddfod?'

'Cewch a chroeso machgen i. Rhowch e ar y wal yn fane. Gymrwch chi ddiod o de?'

Ond serch iddo wrthod, erbyn iddo fynd â'r peiriant o'r neilltu, roedd hi wedi dod â gwydraid o lefrith iddo.

'Yfwch e. Mae hi'n boeth.'

Pwysodd yntau ar y wal dan ddrachtio ac edrychodd i lawr i ddyffryn Llangollen. 'Rydach chi'n byw mewn lle braf ar y Berwyn 'ma.'

'Yden. Daco Ddinas Brân yr ochr belle. Hwn yw'r tro cynte i chi ddod i'r Steddfod?'

Ddisgwyliodd hi ddim am ei ateb, 'Wel, mi fyddwch wrth eich bodd. Mae hi'n werth dod.'

Cerddodd yr hogyn i lawr i'r dref a chroesodd y bont. Roedd honno yn llawn o bobl yn hongian ar y canllawiau. Roedd yno lawer o ferched tlysion, ac edrychodd yntau yn hir arnynt. Erbyn iddo gyrraedd y cae yr oedd wedi dweud droeon wrtho ef ei hun. Roedd hi'n werth dŵad mor bell. Gwelodd y pebyll a'r llymannau yn chwifio arnynt, a chofiodd am y llun hwnnw o faes yr ornest yn llyfr hanes yr ysgol.

Cerddodd yn ei flaen a'r dyrfa yn llifo amdano. Clywodd ddarnau o sgysiau, ffoenodd y chwys a'r cwrw a'r persawr. Roedd yr haul yn ei ergydio fel cleddyf o dân. Daeth i wrthdrawiad ag ymwelwyr o wledydd eraill, a cheisiodd siarad â hwy a thynnu eu lluniau, ond yr oedd hi'n anodd. Wedi iddo fynd ddwywaith o gylch y cae daeth i gynefino ag ysbryd a natur yr ŵyl. Teimlodd y brawdgarwch.

Sikhs gyda chadachau pen amryliw — merched mewn siolus o Limoges — côr Combra mewn mentyll duon — merched Latffia gyda'u coronnau bach a'u plethi llaes, a'r hen wraig bach o'r Berwyn.

Rhyw griw o fyfyrwyr o'r Almaen a ddywedodd wrtho am yr hen wraig fach: fel y deuai yno bob blwyddyn mewn gwisg Gymreig: y ddynes fach unigaf yng Nghymru ond y fwyaf poblogaidd. Byddai'n sefyll y tu allan i'r babelll gystadlu fel hen ddafad mewn cynefin, a deuai pobl y byd ati i ofyn ei phleser a thynnu ei llun.

Roedd y myfyrwyr yn dweud y stori fel pe baent yn adrodd y Nibelunglied. Yr oeddent yn hogiau mawr cryfion, a chyda hwy roedd tair merch dal glunlydan. Yr oeddent i gyd yn bobl glên, a phan aethant oddi wrtho, diolchodd iddynt am eu sgwrs, a daeth yr un peth i'w feddwl wedyn. Roedd hi'n ffrainc cael bod yno. Ni bu'r mwg na'r gwaed yn ofer. Toddodd yr atgasedd.

Penderfynodd wedyn fynd o wres yr haul a chwiliodd am y babelll orffwys, ac ar y ffordd yn y cefndir gwelodd y rhai a ddaeth yn unswydd i hel yn ei boliau yn clertian yn ddifater ar y glaswellt.

Ar ôl eistedd a darllen y rhaglen aeth allan wedyn o gylch y babelll gystadlu. Yr oedd y tanois ar eu coesau hirion yn cario'r miwsig oddi mewn. Ac yn sydyn gwelodd un o enethod yr Almaen gerllaw. Roedd hi'n sefyll ar godiad tir mewn gwisg olau isel ac ôl haul ar ei chroen llyfn, ac yr oedd hi'n edrych yn freuddwydiol tuag at y brynau ac yn cadw amseriad gyda'i throed, a'i chorff yn siglo yn ysgafn fel cobra i bib y swynwr.

Pan ddarfu'r ddawns syrthiodd ei llygaid a gwelodd yr hogyn yn edrych arni. 'Pnawn da eto,' meddai. 'Yr ydych yn mwynhau'r miwsig?' Yr oedd ei Saesneg yn glapiog fel ei un yntau.

Roedd ei llais yn isel a bu rhaid iddo fynd yn nes i'w deall, ond nid oeddent yn swil. Dechreusant sgwrsio am yr Eisteddfod a'r byd: eu byd hwy ydoedd. Yr oedd yn cael ei drosglwyddo iddynt fel cinio ar blât — fel ag yr oedd. Yr oedd yn rhaid iddynt dderbyn y tolciau a oedd ynddo yn barod cyn ychwanegu eu rhai hwy atynt. Gwnaethant awgrymiadau tuag at wella eu cyflwr. Dywedodd y ferch pe buasai ysbryd yr Eisteddfod yn lledaenu y buasai eu gwaith yn haws. Cydsyniodd yntau. Ac yr oedd yn falch fod hyn yn digwydd yn ei wlad ef, a chanfu hithau'r balchder.

Cynigiodd fynd â hi at y stondin diod ac fe ddaeth. Ei henw oedd Ingeborg ac yr oedd hi'n byw yn Colone. Roedd ei chymdeithion wedi mynd i gystadlu ac am ei chwrdd yn ddiweddarach.

Wrth yfed, dechreuodd yr hogyn ganmol prydferthwch ei wlad. Trueni meddai wrthi fuasai iddi fynd yn ei hól i'r Almaen heb weld ychydig ohono. Fe ai â hi i weld y brynau — dim ond am orig. Fe gâi ddod yn ei hól ar ei hunion — dyna addewid.

Gadawsant y cae heb drafferth. Roedd hi'n gynnwr a'r pyrth yn glir, a cherddasant i gyfeiriad y gamlas. Yr oeddent yn debyg i'w gilydd mewn pryd a gwedd, a throai'r bobl eu pennau i edrych arnynt. Ond ni chymerai'r ddau sylw. Yr oeddent yn falch, ac yr oedd ganddynt eu cynlluniau ar gyfer ail siapio'r byd. Roedd y bobl yn amlwg yn credu eu bod o'r un genedl.

A'r funud honno teimlodd yr hogyn rhyw agosatrydd tuag at Ingeborg, a chymerodd ei llaw a siglodd ei breichiau i'r un mesuriad. Roedd y llwybr yn garregog. Dechreusant ddringo nes dod at y maes wrth odre Dinas Brân. Tynnodd Ingeborg ei hesgidiau a cherddodd yn heinyf ar y gwair, a phan ddaethant at y bryn dringodd yn rhwydd. Fel y codai ei choesau i rediad y tir, syrthiai ei gwisg yn donnau tros ei chluniau llawr. Yr

oeddent yn arwain bob yn ail, ac erbyn iddynt ddod at yr adfeilion yr oeddent yn gyfarwydd ag ysgogiadau eu gilydd. Eisteddasant yn yr hafn gan edrych i lawr ar y dyffryn. Gofynnodd yr hogyn, 'Beth wyt ti'n feddwl ohono?'

Nid atebodd hi am yn hir. Yr oedd yn sylu ar yr afon a'r gamlas laslwyd, ac yn culhau ei llygaid wrth dremio i gyfeiriad Eryri lle roedd y mynyddoedd glas yn siglo yn y gwres.

'Prydferth,' meddai hi, a dechreuodd siarad am y Rhine.

'Rwyf tithau'n brydferth Ingeborg,' meddai'r hogyn, a chusanodd hi. Roedd y gwaed yn dyrnu o dan y mwclis ar ei gwddf a gorweddasant yn yr hafn.

Llithrodd ei gwisg yn hawdd tros ei hysgwydd ac yr oedd ei bron yn llyfn a llawn yn erbyn ei wyneb. Ond nid oedd teth iddi: dim ond craith gnawdol wen yn rhedeg i ganlyn troad y fron i ben ei hysgwydd.

Wrth orwedd yno gyda Ingeborg yn yr hafn, ni welai'r hogyn ond darn bach o'r dyffryn islaw. Roedd y darn wedi ei fframio rhwng ei ên a'i thrwyn Tiwtonaidd hi: yr A5 yn prysur ddod i Gymru a'r Ddyfrdwy yn llifo yn ddistans i Loegr. Roedd yr eneth yn anadlu'n drwm wrth ei ochr, ac yr oedd ei feddwl yn ei galw hi yn Ingeborg y brydferth, yr un euraid. A dywedodd wrthi:

'Sut y brifaist ti?'

Edrychodd hithau heibio iddo ac yr oedd ei llygaid yn sugno lliw yr awyr.

'Yn Dresden. Glywaist ti am Dresden? Hogan bach oeddwn i pan ddaeth yr awyrennau. Ei lladd a gafodd fy mam. Yn Rwsia yr oeddf y nhad. Yn llawn o ferched oedd Dresden y noson honno — o'r dwyrain a'r gorllewin yn dianc. Hefo mam yn y stryd yr oeddwn i ac yr oedd y gwydr yn hedeg o'r ffenestri. Fe ddaeth a'm taro. Gwaedu llawer yr oeddwn. Ond yn iawn yr wyf yn awr. Gyda mam Ulrich yn Cologne yr wyf yn byw.'

Trôdd yr hogyn ar wastad ei gefn a sylodd yntau i'r glesni. 'Taw di,' meddai. Dyna'r cwbl a allai ddweud. Ni ddywedodd wrth Ingeborg ei fod yntau wedi bod yn Dresden hefo'r awyrennau. Caeodd ei lygaid ac yr oedd chwys uwchben ei wefl. Yr oedd wedi niweidio tair cenhedlaeth.

Roedd yr haul yn trochi Dinas Brân ac awel gynnes yn dringo'r creigiau ac yn lapio'r gwres amdanynt. Roedd yr awel yn dod o'r Berwyn, ac yn codi nodau telyn wrth groesi maes yr Eisteddfod. A dywedodd yr hogyn wrth Ingeborg ei fod yn ei charu.

Roedd yr haul wedi gadael yr hafn pan godasant i fynd. Yn y gwaedod troisant i edrych ar y llechwedd. Roedd eu cysgodion yn hirion. Daeth y cysgodion at eu gilydd a dywedodd Ingeborg y buasai yn cofio am byth am yr hafn. Ond cyn iddynt gyrraedd yn ôl at y bont, cofiodd am

ei chymdeithion. 'Bydd Ulrich yn flin.'

'Pa un ydy o?'

'Yr hogyn mawr â'r gwallt cwta. I mi mae yn gefnder. Yn ddoctor y mae o'n mynd. Gwell i mi chwilio amdano.'

'Wyt ti'n mynd 'fory Ingeborg?'

'Ydwf. Yfory mi af. Efallai i Gymru y dof eto rhyw dro. Os i Germany y doi di, dyma'r cyfeiriad.' Rhoddodd ddarn o bapur iddo.

'Mi ddofi dy weld ti 'fory. Pa bryd mae'r tren yn mynd?'

'Naw mae hi'n mynd. Ond rhaid...'

'Mi fyddaf i yno.'

Tynnodd ei llaw o'i afael, a gwyliodd yntau hi'n gwau ei hynt gain drwy'r bobl. Yna cerddodd yn ei ôl i'r ffermdy.

Roedd yr haul wedi mynd ac yr oedd gwawr wen ar draws yr awyr. Pwysodd ar y giât gan siarad gyda'r wraig. Roedd ganddi ymwelwyr yn y tŷ. Dywedodd yntau y buasai yn ddigon dedwydd yn cysgu yn y tŷ gwair ar ôl cael tamaid o fwyd. Gorwedddodd yno gyda'i gôt trosto mewn hen wellt, ac yr oedd y lle yn llawn o arogl y dâs newydd yn twymo. Yr oedd ei hunan gyda'i feddyliau a chlywodd y llygod yn symud o'i gwmpas. Ceisiodd unioni ei broblem a phoenydiwyd ef gan edifeirwch. Ond cysgodd rhywdro.

Trannoeth ymolchodd yn yr afon ac aeth i lawr i'r dref. Cyfarfu ag Ingeborg a'i chymdeithion ar y stryd. Yr oeddent yn mynd i'r orsaf yn gynnwr. Fel yr oedd yn nesau atynt, camodd Ulrich i'w gyfarfod.

'Pam yr aethost ti â'r hogan i ffwrdd ddoe? Wyt ti'n meddwl mai ti biau pob dim?'

Tarawodd yr hogyn o dan ei lygad ac yr oedd ganddo fodrwy o aur plethedig. Aeth yr hogyn yn ei ôl wysg ei gefn i'r wal, a phwysodd arni wedi hanner syfrdannu. Nid oedd yn anifail ymladdgar, ond yr oedd mor beryglus a rhyw fwystfil wedi ei gornelu.

Fel yr oedd Ulrich yn dod amdano eilwaith, pwysodd yr hogyn ei ben yn ôl ar y wal, a phlygu wrth ddod ymlaen. Tarawodd yr Almaenwr yn ei wynt. Roedd yn teimlo ei ewynnau yn tynnu'r ergyd allan.

Syrthiodd Ulrich ar y palmant. Roedd yn griddfan a rhedodd Ingeborg ato a phenlinio. Edrychodd yr hogyn i lawr arnynt yn hurt, ac yr oedd yn dechrau adfer ei synhwyrau. Yna cododd Ingeborg ar ei thraed a gweiddi, 'Wedi ei ladd o rwyf ti!'

Rhoddodd gelpen galed i'r hogyn ar draws ei wyneb, a gwelodd yntau waed ar ei llaw. Am foment sylodd y ddau ar ei gilydd ac wedyn ar y gwaed. Yna, o gongl ei lygad, gwelodd yr hogyn y dorf yn ymgasglu.

Trôdd a ffoi am ei fywyd tros y bont ac ar hyd y llwybr a neidiodd trosodd i rhyw gae. Eisteddodd yno o dan y gwrych yn crynu. Ac am y tro cyntaf, teimlodd y gwaed cynnes yn llithro i lawr ei foch.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

GWASANAETH TRIN GWALLT


YN EICH CARTREF I FERCHED, DYNION A PHLANT

LINDA MORRIS

**1 BRYN FEDWEN, Ffordd yr Orsaf
LLANRUG. Ffôn: 678857**

CROESAIR MEDI

Dyddiadur y Mis



AR DRAWS

1. Rhan o'r tŷ sydd hefyd yn rhan o'r pen (6)
7. Peri bod yn anghenus (8)
8. Byddai ogle' drwg ar hwn pe bai ond un llythyren arall ganddo (4)
10. Lancaster, Halifax neu Canberra (6)
11. Ni ellir beio'r ffrwyth hwn am gwymp Adda ac Efa (6)
14. Cerydd neu edliwiad (3)
16. Nid yw'n newid, pa bynnag ffordd yr edrychir arno ar ddiwedd y dydd (5)
17. Eithafol ofidus neu lym, blin iawn (4)
19. Lliw coch, melyn a du (5)
21. Defod (5)
22. Dim ond un gair o'r math yma sydd yn Eco'r mis hwn (5)
23. ... ond ceir llawer o'r math yma'n gwneud rhywbeth (4)
26. Geneth wlyb o Geredigion? (5)
28. Daw hwn yn ôl fel mab eich brawd (3)
29. Dylid gorffwys ar y rhain (6)
30. Mae dau o'ch rhai chi yn ddoniol (6)
31. Nid LISA LIMA ond — MALI (4)
32. 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7 ddaw o'r clychau yma (8)
33. O fod yn ffrind i'r gelyn, mae'n rhaid gweithredu'n gyfrinachol (6)

I LAWR

1. Y fuwch, y ddafad a'r hwyaden mewn cân (6)
2. Dyma yw Robin y gyrrwr (6)
3. Mae'n swnio fel pe bai'r hen wreigan yn gwrthod yn yr Almaen (4)
4. Cysurwr neu ddifyrrwr (7)
5. Cartref y Pili ym Môn (5)
6. Un sy'n methu, neu'n gwrthod siarad (5)
8. Gwybodaeth a geir drwy astudio (4)
9. Lliw seren Robin Llywelyn (3)
12. Mam 8 ar draws. Gwrthod yn Ffrainc wna hi (3)
13. Un sy'n amddiffyn neu'n cefnogi (5)
15. Breichled (5)
18. Ffinio (5)
19. Yr ardal a wasanaethir gan yr Eco (3)
20. Cyfnod o amser sy'n drysu aderyn digon swynol (3)
21. Y sefydliad sy'n cadw eich cyfoeth (7)
22. Deisyfiad (3)
23. Y 'B' sy'n rhan o radd y Brifysgol (6)
24. Gweithred y 'supergrass' (4)
25. Hen, hen Almaenwr sy'n difrodi (6)
26. Gelyn neu estron (5)
27. Daear, awyr, dŵr neu dân (5)
28. Ym mha ben o'r waun y codwyd y pentre' bach yma? (3)
30. Sylwedd sur (4)

ATEBION Y MIS HWN I:

**SYCHARTH, PENISARWAUN, CAERNARFON,
ERBYN NOS LUN, MEDI 20**

Mae'r amser yn brin — felly brysiwch efo'r atebion.

CEIR CYMRU GAREJ MINFFORDD, BETHEL

Ffôn: 670451

Mae Garej Minffordd bellach yn rhan o gwmni garej teuluol sydd wedi ei sefydlu ers deugain mlynedd. Yma mae gennym weithdy trwsio, bae MOT, a gweithdy peintio ac atgyweirio cyrff ceir. Rydym yn cynnig y gwasanaeth gorau am y prisiau isaf posibl ac yn barod i roi pris ar unrhyw waith cyn ei ddechrau! Mae car benthyg i'w gael am ddim bob amser!

Yma, ac yn y Gaerwen, Môn, mae gennym y dewis gorau, a'r rhataf posibl, o geir ail-law safonol. Y llynedd gwerthodd ein cwmni dros 1,000 o geir ail-law — record ymysg y goreuon. Llwyddwyd i wneud hynny am elw bychan a thrwy hysbyseb o ganmoliaeth o'r naill i'r llall (nid trwy hysbysebu drud mewn papurau newydd).

Rydym yn llwyddo i fynd o nerth i nerth ac yn eich sicrhau chwi ein cwsmeriaid na fedrwch ein curo am bris na safon.

CEIR CYMRU

CWMNI CYMREIG YN EDRYCH I'R DYFODOL

ATEBION CROESAIR GORFFENNAF 1993



Llai o lawer yn cystadlu y tro hwn — prysurdeb tymor y gwyliau'n cadw'r croeseirwyr rhag ymarfer eu dawn mae'n rhaid. Fodd bynnag, nid oedd y sach yn hollol wag chwaith. Bu imi dderbyn ceisiadau o Ynys Môn, Rhuthun a Phen Llŷn ond dim un o gwbl o ddalgylch naturiol yr Eco. Rhyfedd yntê!

Enillydd y croesair olaf hwn yn y gyfres yw un a fu'n gefnogol iawn tros y blynyddoedd, sef Miss C. E. JONES, Tŷ Mawr, Rhoshirwaun, Pwllheli. Llonyfarchiadau calonnog iddi a diolch iddi hi yn ogystal a'r ymgeiswyr selog eraill am bob cefnogaeth.

RHODDION

£11.50: Maureen Rhys.

£10.00: C. ac E. Lloyd Evans, Carwyn, Llanrug; Teulu y diweddar O. R. Williams, Dinorwig.

£7.00: John a Nansi Parry, 20 Ffordd Rhedyw, Llanllyfni.

£5.00: Mr a Mrs H. T. Lewis, Sydney, Awstralia; Mrs Dilys Pritchard, Ffordd Deiniol, Deiniolen; Mr Derek Williams, Bron Eilian, Dinorwig; Mr a Mrs R. Lloyd Griffith, Groeslan Isaf Cottage, Penisarwaun; Mr a Mrs Tom a Violet Toleman, Llanberis; Eirian a Staff Bron Eryri; Teulu y ddiweddar Hetty Hughes, 7 Stryd Siarlot, Llanberis; Teulu y ddiweddar Beryl Bryn Williams, Cyffylliog; Bob Hughes, Dalar Deg, Bangor.

£3.50: Mr J. Hunter, 12 Lyndhurst Road, Sheffield.

£3.00: Eluned Owen, Tegfryn, Llanrug.

£2.00: Robin a Violet, 44 Rhydfadog, Deiniolen; Di-enw, Llanberis; Mari Williams, Llanberis; Ceri a Barrie, 17 Stryd Eleanor, Caernarfon.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

CHWARAEON

PWY DDYLAI GAEL Y CERDYN COCH?

Ychydig o flynyddoedd yn ôl fe fynegodd Orig Williams ei farn am awdurdodau pêl-droed Cymru yn eglur iawn — tudalen wag yn ei lyfr *Cario'r Ddraig*. Y tymor yma eto gwelwyd newidiadau yn effeithio ar bob haen ac oedran o bêl-droed. Mae'n fwrriad i'r plant iau chwarae gemau 8-bob-ochr. Mae'n syniad i'w ganmol gan yn dechnegol dylai pob chwaraewr gael mwy o amser gyda'r bêl, a hefyd gyda mwy o le fe ddylai'r timau fedru pasio'r bêl o gwmpas yn hytrach nag arfer y gic fawr i fyny'r cae. Yn anffodus, nid yw'r newidiadau yn ymateb i'r ddwy brif broblem ymysg pêl-droed yr ifanc. Yn gyntaf, a ydynt yn cael eu cyflwyno i fframwaith gystadleuol cynghrair yn rhy gynnar? Ydy'r fframwaith leol yn galluogi plant i symud yn hamddenol o un oedran i'r llall? Tybed oes yna ormod o dimau ieuainc yn y cylch, a dim digon o chwaraewyr ar eu cyfer? Ac yn ail, a ddylid gwneud i ffwrdd â'r rheol camsefyll mewn gemau i ieuencid? Peth rhyfedd yw gweld hyfforwyr a rhieni yn sgrechian 'tyrd allan!' ar amddiffynwyr, a'r creaduriaid bach ddim yn gwybod pam y dylsen nhw 'ddod allan'. Peth gwirion yw cwyno nad oes 'sgorwyr greddfol' yn y gêm fodern, pan yr ydym o oedran ifanc iawn yn hyfforddi plant i chwarae'r gêm camsefyll a rhwystro.

Y tymor hwn gall unrhyw chwaraewr lofnodi i ddau glwb gwahanol. Nid wyf yn hollol siwr o'r geiriad — ai Clwb ynteu tîm. Wn i ddim all rhywun chwarae i Lanrug (Cynghrair Gwynedd), Llanrug (Cynghrair Sain) a chlwb arall — a yw hynny'n ddau GLWB ynteu dau DÎM? Mae'r rheol yma yn gwneud y gynghrair yn 'lottery' llwyr. Ystyriwch ddau ganlyniad diweddar yng Nghynghrair Sain: Nefyn 1, Deiniolen 6. Digon teg, mae Deiniolen â charfan gref ac yn agos at frig y gynghrair. Yna, tri diwrnod yn ddiweddarach: Caernarfon Athletic 1, Nefyn 3. Mae Caernarfon yn dîm cryf yn y gynghrair hefyd. Canlyniad da i Nefyn! Ond ai yr un tîm oedd gan Nefyn yn yr ail gêm? Yn sicr nid oedd bois y tîm cyntaf ar gael ar y Sadwrn. Mae canlyniadau tîm Porthmadog Juniors yr un mor ddiddorol. Mae'n dîm hollol wahanol ganol yr wythnos i'r hyn yw ar ddydd Sadwrn. Ymddengys yng nghynghrair Sain eleni, y bydd yn fantais i chwarae rhai timau ar y Sadwrn — y diwrnod pan fydd y timau gwanaf i'w gweld. Ydy hynny yn gystadleuaeth deg? Ac yna'r hen broblem o deyrngarwch. Mae rhai chwaraewyr o'r ardal yn chwarae i Lanrug a'r Felinheli. Beth petae'r timau hynny yn chwarae yn erbyn ei gilydd mewn cwpan? I bwy mae'r chwaraewyr i ymddangos wedyn? Beth sy'n digwydd gydag anafiadau? Buaswn i'n flin iawn petawn yn rheolwr tîm o'r Konica neu'r Sealink ac un o'm chwaraewyr yn cael ei anafu wrth chwarae mewn cynghrair 'llai'. Ac yna'r 'danfon i ffwrdd'. Mae unrhyw waharddiad yn ymwneud ag rhyw glwb y mae'r troseddwr wedi arwyddo iddo. Yn fy marn i dylid rhoi


y cerdyn coch i'r rheol chwerthinllyd yma ar unwaith!

Ar hyn o bryd mae'r rhagolygon yn ffafriol iawn i dimau'r fro. Awgrymais ddiwedd y tymor diwethaf efallai y buasaidychweliad Jiws i Lanbêr yn gwneud gwahaniaeth. Mae dechrau'r tymor wedi bod yn bur lwyddiannus, er efallai bod ambell i 'bwynt' wedi llithro. Mae carfan ifanc ar Faes Ffordd Padarn a braf gweld PJ yn ôl wedi iddo golli cymaint gydag anafiadau. Yn sicr mae'n gaffaeliad. Siom oedd colli yng Nghwpan Cymru, ond mae'n siwr mai prif nod Jiws y tymor yma fydd ail sefydlu'r Locos fel un o brif dimau Cynghrair Sealink.

Bu cryn newid ar Eithin Duon. Mae tîm llwyddiannus y tymhorau diwethaf wedi ei chwalu. Yng Nghynghrair Gwynedd anghyson iawn yw'r canlyniadau. Yng Nghynghrair Sain mae'r darlun yn wahanol iawn. Mae cymysgfa o hen benau ac ieuencid yma, a chafwyd cychwyn da i'r tymor. Mae Pete Coch yn dal i 'hyrddio' ei hun ymlaen, a thybed a fydd y 'Bobs' yn dal i 'ganu' ar ddiwedd y tymor. Gyda llaw, gan chwaraewr o dîm Llanrug y gwelais y perfformiad unigol gorau y tymor hyd yn hyn. Yr oedd perfformiad Emlyn Coles Jones yn y gôl yn erbyn Deiniolen yn wefreiddiol. Yr oedd yn llawn hyder ac yn trin y bêl yn benigamp. Dyn a wŷr sut groeso

BLE MAE'R BRASO?

Mae tymor criced arall yn dirwyn i ben. Gwn yn iawn fod cryn ddiddordeb yn lleol — ac yn sicr mae llwyddiant Morgannwg yn elfen o hynny. Cafodd tîm 'mabwysiedig' yr ardal, Fron Dinas, dymor llwyddiannus iawn. Yr ail dîm — dan gapteiniaeth Harri Jones — a ddenodd y prif sylw. Oherwydd glaw ar y Sul olaf ni chwaraewyd gêm olaf Fron Dinas yn y gynghrair, ac o'r herwydd llwyddodd Dolgellau i gipio 7 pwynt a'i galluogodd i rannu'r bencampwriaeth â Fron Dinas. Enillodd ail dîm Fron Dinas gwpan her y gynghrair, sef Cwpan Tysilio. Bydd tîm cyntaf Fron Dinas yn chwarae yn erbyn Bangor yn eu gêm olaf, a'r gêm hon, mwy na thebyg, fydd yn penderfynu pwy fydd yn ail i Borthmadog yn y gynghrair.



Cafodd y ddau 'hen fois' Harri Jones a Gwilym Williams dymor da i'r ail dîm. I'r tîm cyntaf roedd Alan Williams ac Iestyn Roberts yn denu sylw. Gallai'r ddau yma chwarae ar lefel uwch.

gafodd yn ôl yn Neiniolen y noson honno!

Tymor o ddisgwyl pethau mawr fydd hi yn Neiniolen. Yn sicr, dyma un, os nad y gryfaf o garfannau Cynghrair Sain. Yn Eifion Jones, Dilwyn Morris ac Emlyn Jones, mae John Williams wedi denu tri chwaraewr a allai chwarae'n rheolaidd ar lefel uwch. Bydd dawn Eio i rheoli'r amddiffyn yn gaffaeliad mawr. Rwy'n siwr bod siom ar ôl colli i Lanrug — o gofio'r nifer o gyfleoedd a gollwyd — ond yn ddi-os daw ambell i dlws i Deiniolen eleni. Mae'r garfan yma wedi ei ffurfio gyda'r bwriad efallai o symud i Gynghrair Gwynedd. Cae newydd, cynghrair newydd! Cawn weld. Gyda llaw, llongyfarchiadau i Glwb Deiniolen ar gael gwahoddiad i gystadlu yng Nghwpan Burritt. Mae'n siwr eu bod yn ffyddiog ynglyn â'u gêm gartref yn erbyn Pwllheli.

Naddo, tydw'i ddim wedi anghofio ail dîm Llanberis. Ers tymhorau bu'r tîm yn dioddef yn y gemau cwpan — gan na allai pawb chwarae oherwydd iddynt chwarae i'r tîm cyntaf. Eleni nid yw'r un gofyn ar y chwaraewyr, a chafwyd dechrau boddhaol i'r tymor. Peth dieithr yw gweld tîm Llanbêr heb un o dlwsau Sain ar ddiwedd tymor. Yn sicr mae'r gallu yno eleni i gywiro hynny.

Y Cofis yw'r ceffylau blaen ar hyn o bryd, ond, i chwi ddilynwyr y bêl-droed yn lleol, gallaf eich sicrhau fod Llanberis, Llanrug a Deiniolen yn fygythiad. Braf yw gweld torfeydd teilwng yn y gemau lleol yn ddiweddar.

Dechrau cyffrous felly i'r tymor. Boed i'r llwyddiant barhau, petae ond er mwyn fy 'ffrind' o Lanberis sy'n mynnu mai 'ardal ffwtbol ydi hon'!

DECHRAU GYRFA?



Am wythnos gyfan yn ystod gwyliau'r haf cafodd nifer o fechgyn yr ardal hyfforddiant arbennig fel rhan o raglen Datblygu Pêl-droed Gogledd Cymru. Ar ddiwedd y cyfnod cyflwynodd Mr Tony Williams dlws hardd i Keith Williams, Bryn, Cwm-y-glo, am mai ef ddyfarnwyd y chwaraewr mwyaf addawol o dan 9 oed.

Yr wythnos ganlynol gwahoddwyd Keith i ymuno â thîm y 'School of Excellence', Llanelwy, i chwarae yn erbyn tîm Dinas Caer. Y sgôr oedd Llanelwy 5, Caer 0.


Dyma gamp arbennig i fachgen mor ifanc. Nid rhyfedd hwyrach o gofio fod ei dad, Gwilym Williams, yn chwaraewr profiadol ac yn gôl-geidwad i dîm Deiniolen.

Llongyfarchiadau mawr i ti Keith — a phob lwc i'r dyfodol.

GWAHODDIAD I DŶ NEWYDD

Yn ystod mis Medi bydd dau atyniad deniadol iawn i garwyr chwaraeon yng Nghlwb Criced Dinas Bangor yn Llandegai.

Ddydd Sadwrn, Medi 25, bydd Bangor yn chwarae yn erbyn tîm Morgannwg ac fe fydd y rhan fwyaf o sêr Morgannwg yn chwarae, ac yn eu plith Mathew Maynard (cynchwaraewr Bangor). Gêm 40 pelawd yr un fydd hi, gan ddechrau am 1.30 p.m. Mae'r mynediad yn rhad ac am ddim gyda digon o le i barcio ceir. Pa well adloniant, gan obeithio cael diwrnod braf. Ar y Sul bydd Morgannwg yn chwarae yn erbyn Bethesda. Mae Morgannwg yn dod yn rheolaidd i Fangor ac fe fydd gêm arbennig y tymor nesaf gan ei bod yn flwyddyn dysteb Hugh Morris, eu capten.



Ar nos Wener, Medi 17, am 7.30 o'r gloch, bydd 'cinio chwaraeon' yn y Clwb. Y siaradwr gwadd yw Jackie Blanchflower, brawd Danny. Chwaraeodd y Gwyddel i Manchester United yn ffeinal yr FA Cup yn 1957. Ydyd chi'n ei gofio yn mynd i'r gôl wedi i Peter McFarland (Aston Villa) roi clec i Ray Wood yn y gôl. Y flwyddyn ganlynol roedd Nat Lofthouse yn rhoi clec i Harry Gregg. Erbyn hyn mae Jackie yn cael ei gydnabod fel un o brif siaradwyr mewn nosweithiau o'r math yma. Mae'r ciniawau yma yn llwyddiannus iawn. Pris tocyn, yn cynnwys bwyd, yw £12. Mae nifer yn llogi 'bwrdd' i gwmni o ffrindiau. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â mi cyn gynted ag sy'n bosib gan fod y tocynnau'n gwerthu'n dda. Cofiwch y rhif ffôn: (0248) 670115.

YN ÔL AR Y BRIG

Yr oedd dau redwr lleol yn cynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth ryngwladol yn Gap yn Ffrainc yn ystod penwythnos cyntaf mis Medi. Yr oedd Colin Jones o Bontrug yn aelod o'r tîm dan 21 oed a gipiodd y trydydd safle a'r fedal efydd. Yr oedd Colin ei hun yn bumed yn y ras. Llongyfarchiadau mawr iddo. Yr oedd Gwynfor Owen o Lanrug yn aelod o dîm dynion Cymru. Er bod dau aelod o'r tîm wedi eu hanafu yr oedd Gwynfor yn fodlon iawn â pherfformiad y tîm mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn.

Pwy yw'r bachgen o Lanrug sy'n hanfodol i lwyddiant Clwb Rygbi Cynghrair Wigan?
Gweler tudalen 9.